Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 4. Rhif 5.] MAI, 1904. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Nyth y Fran.
Lewis Loyd yr Arianydd.
Gweinidog y Mynydd.
Gan Tudfathar.
Yr Hibbert Journal.
Y Cyfarfod Chwarterol.
Congl yr Awen.
Priodasau. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a chofnodion eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J.D.S., Aberystwyth; J.T., Tibberton.

"Naturioled a'r aderyn
Canai Cerngoch, bardd y Penbryn,
Aeth y gân o lanau'r Aeron,
Ond ei hadsain sy'n y galon."—*Ap Ceredigion.*

YN BAROD MAI 25, 1904.

CERDDI "CERNGOCH"

Pris 2s. 6c.; Trwy'r Post, 2s. 9c.;

Sef Casgliad o Weithiau y Bardd Adnabyddus

John Jenkins, Penbrynmawr, Talsarn,

Yn cynwys

CERDDI NATUR, CERDDI COFFA, CERDDI CARU,
CERDDI CWRW, CERDDI PENDRWS, A MANION.

Golygir y llyfr gan Ap Ceredigion a Dan Jenkins, a'i bris, gydag ymylon goreuredig, fydd 2s. 6c. Ychwanegir at werth y llyfr gan Ddarluniau o CERNGOCH, AMNON II., AERONIAN, a JENKIN JENKINS, Blaenplwyf; hefyd Penbrynmawr, Felincoed, Ty'nrhos, Trecefel a Blaenplwyf. Dylai pawb ydynt yn awyddus i sicrhau copiau o'r llyfr dyddorol hwn, anfon ar unwaith, gan na argreffir ond nifer penodol.

Pob Archebion i'w hanfon i'r

MANAGER, CAXTON HALL, LAMPETER.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

44, King Street, Carmarthen.

T. CONWIL EVANS,

LADIES & GENTLEMEN'S TAILOR AND WOOLLEN DRAPER.

A Good Selection of Materials always in Stock.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress : Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term : Boarders, £17 17s., including Free Laundry ; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d. ; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU,

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd : Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel.
Prifathraw : T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau Arts Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £0 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg, 'Gymnasium,' Cychod, Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E A. Carpenter.

Am Prospectus, a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

T. Mortimer Green, Registrar.

T. E. JONES & CO.,

(ESTABLISHED 1852)

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

Glasgow House, Lampeter.

Men's and Boys Overcoats, Hats, Caps, Umbrellas.

D. J. EVANS,

CLOTHIER,
GENT'S MERCER, &c.

Waterproofs Hosiery, Shirts, Ties, Collars, Gloves, &c.

Suits and Single Garments made to measure.

ABERCERDYN MILLS.

. . . NOTED FOR . . .

Real Welsh Flannel, Cloths, Ladies' Dresses,

BLANKETS, &c.

APPLY TO M. EVANS & SON, OR TO

D. EVANS, Auctioneer & Valuer,
Glan Teifi, LLANDYSSUL.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Dolbantau & Abergwen Factories

NOTED FOR THEIR

Welsh Flannel, Cloth, Blankets, &c., &c.

Prices and Patterns on application to

W. DAVIES, DOLBANTAU,
LLANFIHANGEL-AR-ARTH, CARM.

The Presbyterian Fund.

The Managers desire to give notice of the following SCHOLARSHIPS, which are open to Theological Students of all denominations:

Two Graduate Scholarships of £40 for 3 years,

with Free Instruction for the B.D. Degree of the University of Wales, tenable at the Presbyterian College, Carmarthen.

Applications must be in the hands of the Secretary before July 23rd, 1904.

For Particulars and Forms of Application apply to

G. HAROLD CLENNELL, Esq.,
Secretary to Presbyterian Fund,
6, Great James Street, Bedford Row, London, W.C.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1904. [CYF. IV. RHIF 5.

NODION Y MIS.

Y "DRYCH" ydyw newyddiadur cenedlaethol Cymry America, a llongyfarchwn ei olygydd ar y modd galluog y cerir ef yn mlaen, a'r yspryd rhyddfrydig nodwedda ei dudalenau o wythnos i wythnos. Cymerasom ddyddordeb fwy na'r cyffredin yn yr erthyglau ar "Christian Science Mrs. Eddy," oherwydd onid chwaer o Landybie, ac yn hanu o deulu Undodaidd ydyw Ann Rees, M.D., a ysgrifena mor fedrus a miniog o blaid y wyddor hon? Hi ddengys wreiddioldeb meddwl ac yspryd diofn wrth amddiffyn y gobaith sydd ynddi, fel y mae yn gangen deilwng o'r boncyff y daeth allan o hono. Ond yr ydym yn gwyro. Ymdrafodaeth sydd wedi cael llawer o sylw yn y papyr hwn ydyw yr un ar "Bwnc y Credoau," a chawn ni yr ochr hon i'r Werydd ein synu wrth ganfod y sefyllfa yn mhlith gweinidogion yr Anibynwyr, o leiaf, yn America.

Codwyd y gwynt gan un gweinidog parchus trwy wneud yr haeriad, nad oedd corff mawr gweinidogion y Cynulleidfaolwyr yn credu bellach yr athrawiaeth o Iawn Ddirprwyol, ac y mae yn cadarnhau ei osodiad drwy roddi yr engreifftiau a ganlyn: Dywed eu bod nid yn unig yn gwadu Iawn Ddirprwyol, ond fod "Undodiaeth wedi lefeinio yr enwad parchus," ac mai dyna farn gweinidog sydd wedi ei addysgu yn athrofa yr enwad, a gweinidogaethu yn eu plith am chwarter canrif. Cyfeiria y brawd hwn at erthygl a ymddangosodd yn y "*Congregationalist*," prif newyddiadur yr enwad, am Chwefror 1903, o eiddo y golygydd, o dan y penawd "*The Reunion of the Congregationalists.*" Dywedai nad oedd dim o bwys i atal neu i rwystro Cynulleidfaolwyr ac Undodiaid Americanaidd i aduno; a bod y gwahaniaeth sydd rhyngddynt mor lleied fel nad yw yn un rhwystr i'r ddau enwad "fyned yn un corph." "*And the signs of the times,*" meddai, "*are in this direction.*" Gellid meddwl y gwnai y fath

erthygl effeithio storm o wrthwynebiadau. Ond ni wnaeth neb o'r miloedd lawer perthynol i'r enwad ei chondemnio. Gwna Undodiaid a gweinidogion Cynulleidfoal, yn neillduol yn y *New England States*, newid pwlpudau yn barhaus. Bu Proff. Paine am flynyddau yn dysgu athrawiaeth y Drindod, ond yn awr gwna ddysgu Undodiaeth; ac y mae wedi cyhoeddi llyfr ar "*The Evolution of the Trinitarian Doctrine*," yn yr hwn y mae yn gwadu y golygiad Trindodaidd. A gafodd Paine ei atal neu ei rwystro i ddysgu y cyfeiliornad yn yr Athrofa? Na, ni ddywedwyd gair yn ei erbyn, mor bell ag wyf fi yn deall.

Yr wyf yn meddwl mai Gilbert yw enw athraw duwinyddol yr enwad yn Chicago. Gwyddai yr ymddiriedolwyr a'r efrydwyr ei fod yn dysgu Undodiaeth ac Universaliaeth, a chafodd ganiatad i wneud hyny am flynyddau, a gwnaeth yr ymddiriedolwyr ei wobrwyo trwy roddi iddo flwyddyn o wyliau, a thâl mawr fel gallai gymeryd taith i wlad Canaan. Nid peth anghyffredin, fel yr wyf yn deall, yw i weinidog Undodaidd gael ei alw gan eglwys Gynulleidfaol, ac i weinidog Cynulleidfaol gael ei alw gan eglwys Undodaidd. Yr wyf wedi cyfarfod a rhai yn mysg yr Anibynwyr Cymreig yn y wlad hon yn ymwrthod a'r syniad o Iawn Ddirprwyol, ond nid wyf wedi cyfarfod ag un Undodwr nag Universaliad, a chredwyf na cheir hwynt, yn mysg eu haelodau. Oddiwrth yr uchod ni gawn syniad lled gywir o sefyllfa pethau yn America. I'r cyfeiriad hwn mae'r awelon wedi bod yn chwythu drwy'r ganrif ddiweddaf, ond gwanaidd, mae'n wir, ydynt wedi bod ar lawer tro. Ac ymddengys fod yr ystorm yn dechreu tori allan yn awr. Eithr-os anghredir yr Iawn Ddirprwyol, rhaid o anghenrheidrwydd wedi'n anghredu y Cwymp yn Eden, a'r canlyniad fydd i'r hen gredoau, sydd yn taflu dirmyg ar ddyn a sarhad ar Dduw, fyned un ar ol y llall i ebargofiant. Deued yn eu lle olygiadau newyddion fo'n cydweddu yn well a phregeth Crist ar y mynydd, dameg y mab afradlon a'r Samaritan trugarog—cariad tu ag at Dduw a chariad tu ag at ddyn.

Mae storom fechan yn chwyrnellu trwy dudalenau "Yr Ymofynydd Seisnig"—"*The Inquirer*," oherwydd beiddgarwch y golygydd yn ymyru yn mhethau sanctaidd Gwleidyddiaeth; ac am fod Pwyllgor y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor wedi bod mor fyrbwyll a datgan eu digllonedd, am fod y Llywodraeth wedi mabwysiadu y ddeddf sydd yn caniatau yr hawl i gyfoethogion y Transvaal i ddwyn gweithwyr o China i weithio y mwn-gloddiau o dan amgylchiadau fydd yn eu gwneud ond ychydig yn well na chaethion. Mae y natur ddynol yn gyfansoddiad amrywiog a chywrain. Arferai yr

Undodiaid sefyll drwy yr oesau dros ryddid meddyliol a phersonol. Ond cyn gynted ac y daw pwnc sydd yn dal cysylltiad uniongyrchol a seiliau ein golygiadau crefyddol i afael un o'r partion gwleidyddol, mae yna bersonau yn barod i dystio fod y pwnc yn anheilwng mwyach o sylw enwad crefyddol. A gwaeddant ar weinidogion a lleygwyr, "*Hands off!*" yr ydych yn troseddu ar fangre gysegredig (neu anghysegredig) gwleidyddiaeth.

Byddai yn ddyddorol pe bai un o feddylwyr goreu'r byd yn gallu penderfynu beth ddylai amcan y pleidiau gwleidyddol fod. Amlwg yw fod personau sydd ar y Sabbath yn gallu uno i gyd-addoli Duw, a cheisio drachtio i mewn o yspryd Efengyl Iesu Grist, y rhai sydd yn credu mewn rhyddid crefyddol a gwleidyddol, yn methu cydweled pan yn ceisio cymhwyso eu daliadau at achosion neillduol. Mae cymaint o ymdrech yn cael ei wneud i ddarostwng gwleidyddiaeth i *level* helwriaeth bartiol, i basio deddfau sydd yn sawru o hunanoldeb a mantais uniongyrchol i sect neu barti digon galluog i dynu sylw y deddfroddwyr, fel mae anghenraid yw i garwyr cyfiawnder i godi eu llef yn erbyn pob trais ac anghydraddoldeb, ac i dderchafu y ddelfryd boliticaidd o'r llaid, lle mae hunan a lles personol yn aml yn ei llusgo.

Yn y cysylltiad hwn mae gwybod amcan Mr. Gladstone, gwladweinydd godidocaf y byd yn ystod y ganrif ddiweddaf, yn ddyddorol. Yn ei fywgraffiad gan Mr. John Morley cawn y gosodiad canlynol: "Meddyliai Mr. Gladstone gymaint am yr Eglwys ag a feddyliai am y wladwriaeth; ystyriai yr Eglwys fel enaid y wladwriaeth; credai fod llwyddiant y prif swyddogion i gyrhaedd amcan llywodraeth yn ymddibynu ar grefydd; ac yr oedd yn sicr fod cryfder y wladwriaeth yn cyfateb i gryfder ac iachusrwydd crefyddol y werin, ag mae y wladwriaeth yn drefniant i'w gwasanaethu. Nid yn unig fe dderbyniodd Mr. Gladstone ddaliadau yr Eglwys y perthynai iddi. Ceisiodd hefyd ddwyn moesoldeb i weithredu ar holl drafodaeth ei genedl a chenhedloedd y byd. Onid dyma ddylasai delfryd pob crefyddwr i fod—ceisio cymhwyso moesoldeb uwchaf Cristionogaeth at bob cwestiwn sydd yn dal cysylltiad a rhinwedd cenhedlaethol? Goreu i gyd po leiaf gyffyrddir a'r pleidiau politicaidd yn ein cyfarfodydd crefyddol; ond os goddefir i iawnderau dyn gael eu sathru dan draed, heb godi llef gynhyrfus yn erbyn y fath gamwri, yna mae ein hawl grefyddol tan gwmwl, a'r goleuni addfwyn yn cilio o'n heneidiau ac o'n henwad.

Mae ein gwlad yn ffyddlon, fel ag y mae, i syniadau ymherodrol (*imperialism*), wedi caniatau i swyddogion India i ddanfon yr hyn a elwir yn "Genhadaeth Heddychlon" i diriogaethau Tibet. Mae y "Genhadaeth" hon yn gynhwysedig o ychydig ganoedd o filwyr India. Amcan tybiedig y "Genhadaeth" yw dyfod i ryw delerau a llywiawdwyr y wlad yn nghylch agor drws masnach rhwng Tibet ac India, ac i ddyfod i well dealldwriaeth a'r wlad sydd yn ffinio ag India. Amcan mawr trigolion Tibet yn ystod y blynyddau diweddaf yw cadw estroniaid allan oddiyno, a byw iddynt eu hunain yn eu ffordd eu hunain. Nid ydynt am ymyru ag India, ac nid ydynt am i India ymyru a hwy. Ond mwy na thebyg fod ofn ar swyddogion India y bydd i Rwssia rhyw ddydd osod ei chrafanc ar Tibet; a chan fod Rwssia heddyw a'i dwylaw yn llawn, mae yn adeg gymhwys iawn, yn ol tyb swyddogion India, i ormesu ychydig ar Tibet.

Dylem roddi croesawiad calonog i'r newydd dderbyniwyd ar ddechreu Ebrill, fod yna gytundeb wedi ei gwblhau rhwng Prydain Fawr a Ffrainc ar rai pynciau sydd wedi achosi gofid i'r ddwy wlad am flynyddau. Mae yna lawer o wahanol farnau yn bodoli yn nghylch yr enillion syrthia i ran y wlad hon o dan y cytundeb, a chaed rhai yn credu y dylai Arglwydd Lansdowne fod wedi cadw ein hawliau masnachol yn Morocco, nid am ddeg mlynedd ar hugain, ond am byth. Gan nad beth am hyn, melus yw meddwl yn yr adeg gythryblus hon yn hanes y gwahanol wledydd fod Prydain Fawr a Ffrainc, oeddynt er ys blynyddau yn cyfrif eu hunain yn elynion, wedi rhoddi un cam i gyfeiriad heddwch ac i well dealldwriaeth a'u gilydd. Pan mae brawdoliaeth a heddwch yn ffynu rhwng teyrnasoedd, mae llwyddiant a blaenfynediad ar gynydd.

Yn y *Pall Mall Magazine* mae Harold Beebie yn gosod lawr rai o syniadau y Parch. R. J. Campbell, M.A. ar weddi. "Mae gweddi yn ewyllys yr holl ddynoliaeth, yn yni pob personoliaeth. Nis gall neb beidio gweddio. Mae y masnachydd a frysia i'r *City Temple* fore Iau yn gweddio yn fwy cyson a nerthol na llawer i ddyn crefyddol. 'Ond,' meddai y masnachydd, 'nid wyf fi yn gweddio o gwbl, nid wyf yn credu mewn gweddi.' 'Fy nghyfaill," medd y gweinidog ieuanc, 'yr ydych yn gweddio bob mynud o'ch bywyd llafurus; mae pob mynud yn ymdrech ar ran eich ewyllys i gyfeiriad llwyddiant. Mae yna weddiau da a drwg, gweddiau hunanol ac anhunanol, gweddiau duwiol a gweddiau dieflig, ac y mae pob dyn yn gweddio y naill neu y llall. A ydych yn dymuno i hoced, cecraeth, *meanness*, creulondeb, anghyfiawnder a drygioni i fuddugoliaethu, a ca ydych yn gweithio yn y cyfeiriad hwn? Yna mae eich gweddiau yn ddrwg. A ydych yn dyheu ar i'r fuddugoliaeth fod o du gonest-

rwydd, caredigrwydd, cyfiawnder, addfwynder a goleuni, ac a ydych yn ymwroli i gyrhaedd yr amcan uchel hwn? Yna mae eich gweddiau yn dduwiol. Rhaid yw i bob dyn weddio, ar un ochr neu'r llall."

Bu Frances Power Cobbe farw Ebrill 5ed, yn hen Balas Hengwrt ger Dolgellau, yn 80 oed. Yr oedd ar lawer ystyr yn un o gymeriadau mwyaf nodedig ei hoes, ac yn sefyll yn uchel yn y rhestr hono o fenywod enwog ag mae eu henwau yn addurn i'r cyfundeb Undodaidd—rhestr sydd yn cynwys Mrs. Somerville, Mary Carpenter, Harriet Martineau, Mrs. Gaskell, Anna Swanwick, a Florence Nightingale. Ganwyd hi yn Dublin mewn teulu o'r sect fanylaf a mwyaf uniongred. Pan oddeutu ugain oed daeth o dan ddylanwad ysgrifeniadau Parker, Channing a Martineau, gyda'r canlyniad i'w thad gau drws ei chartref yn ei herbyn. Bu am beth amser yn cynorthwyo Mary Carpenter yn ei gwaith yn mhlith plant tlodion Bryste, a thalodd sylw neillduol i ddiwygiad mewn Gweithdai Undebol. Yn 1860 yr oedd yn gweini wrth wely angau Theodore Parker yn Florence, a hi ydyw golygydd yr unig argraffiad cyflawn o'i weithiau.

Safai yn gadarn dros hawliau benywod a phlant, a gwnaeth waith ardderchog yn y cyfeiriad hwnw, yn gystal ag yn ei hymdrechion yn erbyn creulondeb gwyddonol at anifeiliaid mudion (*vivisection*). Yn ystod ei hoes hir ysgrifenodd lawer o lyfrau yn neillduol ar Foeseg a Chrefydd, a bu yn ohebydd diwyd i'r prif newyddiaduron a'r cyfnodolion. Meddai ar arddull mor effeithiol fel yr oedd ei hysgrifeniadau yn hynod ddarllenadwy. Daeth i gysylltiad agos a rhai o brif ddynion ei hoes, megis Deon Stanley, Darwin, Tennyson, Arglwydd Shaftesbury, a Cardinal Manning. Yr oedd mewn cydymdeimlad neillduol a Dr. Martineau ac yn aelod o'i gynulleidfa yn Little Portland Street pan yn byw yn Llundain.

Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi mewn dull hynod o syml, yn Eglwys Llanelltyd ar bwys Hengwrt, y Parch. J. Estlin Carpenter, M.A., nai Mary Carpenter, yn gwasanaethu yn y tŷ ac yn y fynwent. Yr oedd Miss Cobbe wedi gwneud anrheg o'i llyfrgell werthfawr cyn ei marwolaeth i gynghor trefol Barmouth, ac yr oedd adeilad cymhwys wedi ei godi i'w derbyn. A chyfrif ei safle uchel yn marn y cyhoedd fel un o brif fenywod y dydd, ei medr llenyddol a'i llwyr ymgysegriad i achosion daionus, nid rhyfedd fod y newyddiaduron wedi gwneud crybwylliadau helaeth am ei marwolaeth. Nid oeddem yn synu fod y *Christian World* yn talu parch neillduol iddi mewn

dau rifyn olynol. Ni synem chwaith mai dim ond rhyw bedair llinell allasai y *British Weekly* hebgor i'w choffadwriaeth, gan ei bod hi'n fater cydwybod gan y papyr hwnw i anwybyddu pawb a phob peth, os bydd yr arogl lleiaf o Undodiaeth arnynt. Dyma esiampl o'r ysbryd Phariseaidd sydd yn nodweddu cymaint o iawnffyddiaeth flodeuog yr oes. Ond rhaid cyfaddef i ni synu peth pan y gwelsom erthygl haner colofn hynod bwrpasol, cynhwysfawr a theilwng o'r gwrthrych yn y *Goleuad*, newyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd. Nid drwg yr hen gorph !

NYTH Y FRAN.

[Parhad o'r Rhifyn diweddaf.]

Un o nodweddion dymunol Kant trwy ei oes oedd ei barch a'i deimlad o rwymedigaeth i'w rieni tlawd ond rhinweddol. Ac fel y rhan fwyaf o feibion athrylith, priodolai yr hyn oedd oreu ynddo ei hun ac yn ei dynged i'w fam—benyw uwchlaw y cyffredin o ran cynheddfau meddyliol, a gwir deimlad crefyddol. Trwyddi hi y cafodd ei osod ar *step* isaf yr esgynfa a'i harweinodd yn y diwedd i'w safle fel un o ddynion mwyaf ei oes. Yr oedd cymeriad a ffyddlondeb crefyddol y fam wedi tynu sylw ac wedi enill cyfeillgarwch Dr. Schulz, un o brif ddynion Koenigsberg, pregethwr poblogaidd, ac athraw yn y Brifysgol. Digwyddai hefyd fod yn lywodraethwr un o ysgolion goreu y ddinas, a chafodd Kant

Gil y Drws yn Agored

i gyfleusderau ag y bu yn hawdd i'w dalent a'i ymdrech i wneud y defnydd goreu o honynt. Bu yn yr ysgol hon am wyth mlynedd, a chan nad beth am ganghenau eraill, yr oedd wedi dyfod yn feistr ar yr iaith Lladin, yr hon a ysgrifenai ac a siaradai gyda'r rhwyddineb mwyaf.

Pasiodd oddiyno i'r Brifysgol yn 1740, a dysgodd gymaint oedd yn wybyddus yr adeg hono mewn *Mathematics* ac Athroniaeth Naturiol, heblaw dyfod i gydnabyddiaeth a'r canghenau hyny fuont yn tynu fwyaf o'i sylw wedi gadael y Brifysgol, sef Rhesymeg ac Athroniaeth. Feddyliol a Moesol. Ychydig wyddis am yrfa Kant fel myfyriwr, ond fod ei sylw mwyaf neillduol wedi ei roddi i astudio *Mathematics*, ac yr oedd yr ysgrif a barottôdd ar gyfer graddio yn dal cysylltiad a'r wyddor hono. Erbyn ei fod allan o'r Brifysgol yr oedd ei dad a'i fam wedi marw, ac yntau wedi ei adael mewn dygn dlodi; ond yn nghanol ei dlodi parhaodd i feithrin yr uchelgais o fod yn broffeswr yn Mhrifysgol y ddinas y ganwyd ef ynddi. Pasiodd blynyddoedd lawer cyn i'w freuddwyd gael ei sylweddoli —blynyddoedd a dreuliodd mewn dinodedd ac mewn ymdrech galed a'i amgylchiadau fel athraw *private* mewn gwahanol deuluoedd yn nghymydogaeth Koenigsberg. Ond mae'r awrlais yn rhwym o

DARO TYMP YR AWR

ddisgwyliedig i ddyn o athrylith a phenderfyniad fel Kant. Yn 1755 llwyddodd i ddyfod i berthynus a'r Brifysgol fel darlithiwr anghyhoedd, ac felly cafodd gyfleustra i ddangos ei fetel, ac i ddisgwyl ei dro. A disgwyl gafodd am bymtheg mlynedd. Y cyfwng yma oedd y tymhor hau a ragflaenodd gynhauaf toreithiog ei fywyd. Gwnaeth ei safle ddinod yn y Brifysgol fel athraw anghyhoedd yn orsedd o'r hon y dechreuodd reoli cyfeiriad meddwl ei oes. Yr oedd Herder, un o enwogion yr Almaen, yn eistedd wrth ei draed yn 1762—64, a dyma ychydig eiriau o'i eiddo yn dangos ei barch a'i warogaeth i'w athraw: "Nid oedd dim ag oedd yn werth ei wybod yn cael ei esgeuluso ganddo. Nid oedd gan na sect na phlaid, na rhagfarn, na pharch at enw y dylanwad lleiaf arno mewn cymhariaeth i hawliau y gwirionedd; cefnogai, a gorfodai, mewn ffordd hynaws, i'w wrandawyr i feddwl drostynt eu hunain. Yr oedd gormes yn ddieithr i'w natur. Y dyn hwn a enwaf gyda'r diolchgarwch a'r parch dyfnaf yw Immanuel Kant; mae ei ddelw yn sefyll o'm blaen, ac yn anwyl imi." Yn y diwedd ar ol cynyg ddwy waith a methu, llwyddodd yn 1770 i gael ei dderchafu i fod yn broffeswr Rhesymeg ac Athroniaeth yn Mhrifysgol Koenigsberg, ac i sylweddoli uchelgais ei ieuenctyd. Ni chwenychai safle o uwch, ac er iddo gael gwahoddiad dro ar ol tro i ymsefydlu yn Halle, y brifysgol fwyaf pwysig yn Prwssia ar yr adeg hono,

NID OEDD UN ATDYNIAD

yn ddigonol i'w syflyd o'i le hyd ei farwolaeth yn 1804 pan yn bedwar ugain oed. Hyd 1780 nid oedd ond ychydig son am dano na chwaith am y brifysgol tuallan i furiau Koenigsberg. Gyda'r flwyddyn 1781 a chyhoeddiad ei waith Beirniadol cyntaf, daeth Prifysgol Koenigsberg y blaenaf yn yr Almaen, ac yn gyrchfan i fyfyrwyr o barthau pellenig y wlad. Nid hir bu y prifysgolion eraill cyn gweled ystyr anhraethol y ddysgeidiaeth newydd; a daeth "Kritik" Kant yn fuan i fod yn wers-lyfr yr holl brifysgolion Pabaidd a Phrotestanaidd yn ddiwahaniaeth, ac edrychid ar Kant ei hun fel meddyliwr blaenaf yr oesoedd diweddar—cymeriad ag y mae ef wedi gadw hyd y dydd hwn. Shakespeare ydyw bardd mwyaf yr oesau, ac mor fawr yw ein cywreinrwydd i gael gafael ar fanylion ei fywyd ac mor fawr y prisiwn ni yr ychydig sydd ar glawr. Perthyna Kant i'r un

ARCHOFFEIRIADAETH FEDDYLIOL

a Shakespeare, a daw y gofyniad naturiol i fyny, sut ddyn oedd ef, pa fodd yr oedd yn byw? Ac os na allwn ni ddeall llawer o'i athroniaeth, a oes digon o'i hanes ar glawr i'n galluogi ni i ddeall y dyn? Mae'n ffodus fod cymaint yn adnabyddus a chymaint wedi ei ysgrifenu am dano

yn ystod deg mlynedd ar hugain diweddaf ei fywyd, beth bynag, fel mae yn hawddach o lawer i nodi ei arferion, i ddesgrifio ei nodweddion, ac i olrhain cwrs ei fywyd o ddydd i ddydd nag ydyw yn achos y rhan fwyaf o ddynion enwog yr oesau a fu. Dyn bychan o gorffolaeth, tebyg iawn i Channing, ni a feddyliwn, rhyw bum troedfedd o uwchder, teneu ac eiddilaidd dros ben, ond gyda rhyw ysprydiaeth a lewyrchai allan o'i lygaid mawr agored nas gellid dweyd ei hyd na'i led, ei uwchder na'i ddyfnder, ond a wnelai ei bresenoldeb yn fawr ac urddasol pan yn anerch ei fyfyrwyr ar ei hoff bynciau. Dywedasom eisoes ddigon i'r darllenydd i gasglu mai un o'i nodweddion oedd penderfyniad gyda nerth greddf yn perthyn iddo, ewyllys nas gallai yr un rhwystr na'r un demtasiwn ei thaflu allan oddiar y ffordd oedd wedi dori allan iddi ei hun. Penderfynodd beidio myned i ddyled. Cariodd ei benderfyniad allan trwy holl flynyddoedd ei dlodi, a gwell oedd ganddo ddefnyddio gwisg oedd

AR FIN BOD YN GARPIOG

na gosod ei hun dan rwymedigaeth i gyfeillion fuasent yn barod iawn i wneud anrheg o un newydd iddo. Penderfynodd yn wyneb ei wendid a'i eiddilwch i gadw ei gorff bob amser mewn sefyllfa i wneud y gwaith a ofynid oddiwrtho. Gwyddai o'r dechreu fod brwydr barhaus i gael ei hymladd ar y maes hwn, a pharottodd ei hun ar ei chyfer. Gwnaeth astudiaeth drylwyr o'i gyfansoddiad. Penderfynodd orchfygu ei wendidau a'i ddiffygion trwy gymedroldeb ac ymarfer corfforol. Llwyddodd i raddau pell, a phan y methai gyda rhai o honynt, penderfynodd i'w hanwybyddu ac i gymeryd mantais o'r ddeddf hono trwy yr hon y gall dyn ddefnyddio ewyllys anhyblyg i sicrhau meistrolaeth ar ei deimladau. Un o amodau y cynllun oedd bod yn rheolaidd gyda phob peth. Codai, haf a gauaf, am bump yn y bore, ac hyd saith yr oedd yn ddiwyd yn ei fyfyrgell. Y cwbl a gymerai i frecwast oedd cwpanaid o goffi, heb ddim i fwytta gydag ef. O saith hyd naw yr oedd wrth ei waith yn y Brifysgol. Ciniawai am un, yr unig bryd trwy'r dydd, a gallwn gasglu ei fod

YN BRYD HANSWM,

fel y dywedir, gan y cymerai iddo ef a'i gyfeillion ddwy awr i fyn'd trwy'r gwaith. Am bedwar yn yr haf, ac haner awr wedi tri yn y gauaf ai allan am *walk* am awr, ac yr oedd mor rheolaidd ac amserol yn cychwyn, fel yr oedd pobl yn ei wylio er mwyn gwybod yr amser. Meddai un wrth y llall, ar "Rodfa yr Athronydd" fel y gelwir yr heol hyd y dydd heddyw, "Beth ydyw hi o'r gloch?" "Wel, mae'n agos i bedwar, ond aroswch am funyd neu ddwy, hyd nes y daw y Proffeswr Kant allan, ac fe gewch sicrwydd wedi'n." Penderfynodd fod yn hen fab gweddw trwy ei oes, er i ymweliad un foneddiges ieuanc a phrydferth a'i chyfeillion yn Koenigsberg fod unwaith yn gryn brofedigaeth iddo. Ond yr oedd wedi dwys ystyried y mater unwaith ac am byth, a methai weled fod bywyd priodasol yn syrthio tu fewn i linellau y cynllun oedd ef wedi osod o'i flaen fel myfyriwr. Nid oedd yn amddifad o deimlad, ac nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i gymdeithas benywod. Un o'i ddywediadau oedd hwn, "Dylai benyw fod fel yr awrlais gyhoeddus (*church clock*) gyda gwyneb agored, a dylai fod yn amserol yn ei harferion, ond ni ddylai, fel y cloc, i ddweyd y cwbl a wyr." Ac yn mhellach eto, dywedai "y dylai fod fel y falwoden yn gartrefol; ond ni ddylai fel y falwoden gario

EI HEIDDO AR EI CHEFN."

Ond os collodd Kant fendithion y bywyd teuluaidd, yr oedd ei deimladau gwresog a charedig y cyfryw fel yr oedd ganddo nifer o gyfeillion ffyddlon a wnaent ei fywyd yn fwyn-

iant cymdeithasol o ddydd i ddydd. Un o'i brif gyfeilliion oedd Sais o'r enw Green. Ar eu cyfarfyddiad cyntaf bu eu hymddiddan ar y cwestiwn o Anibyniaeth yr Unol Dalaethau bron bod yn achos cweryl difrifol rhyngddynt. Ond pleidiodd Kant achos yr Americaniaid mewn modd mor argyhoeddiadol fel y deallodd Green ei fod yn ymwneud a meistr na welodd ei fath o'r blaen mewn gallu i resymu ac mewn meistrolaeth o'i bwnc, a'r diwedd fu i'r cyfarfyddiad hwn o dan amgylchiadau mor anffafriol fod yn achlysur i gyfeillgarwch a barhaodd yn wresog trwy eu bywyd. Cyfeillion eraill oeddent Ruffman yr arianydd, ac Yscotiad o'r enw Motherby. Yr oedd perthynas y cwmni yma a'u gilydd yn hapus dros ben, ac yn ddifyr ar ambell dro. Arferai y pedwar dreulio rhywfaint o'r prydnawn yn nhy Green, a dyma'r *programme*: Dychwelai Kant o'i *walk*, ac ar ol myned i mewn i ystafell Green gwelai ei fod yn cysgu. Eisteddai Kant wrth ei ochr, dechreuai feddwl am ryw bwnc dyrus ac elai yntau i gysgu. Erbyn hyny dyma Ruffman yn do'd i mewn, ac wedi deall sut oedd pethau yn bod, edrychai am y gader esmwythaf welai, a chladdai ei hun yn yr un tawelwch. Bob yn dipyn mae Motherby yn gwneud ei ymddangosiad, ac yn deffroi y tri, mewn trefn i gael gwledd feddyliol hyd saith, pan yr ymadawai y cwmni a'u gilydd wrth y fynud. O ran cymeriad yr oedd Kant yn bob peth bron y gellid disgwyl athronydd fod. Bu fyw trwy ei oes o dan dywysiad egwyddorion iachus a sefydlog. Yr oedd ei holl natur, fel yr awgrymwyd yn barod, yn ddarostyngedig i'r hunan-reolaeth lwyraf a mwyaf cyson. Fel y dywed Friedrich Paulsen, "Yr oedd yn gyfaill trefn; ni adawai ddim i duedd, i ogwydd y foment. Yr oedd rheswm yn bob peth, natur yn ddim heblaw bod yn faes i weithrediad rheswm. Yr oedd ei athroniaeth foesol yn adlewyrchiad o'i garicter ei hun. Y dyn perffaith yw y dyn a lywodraethir gan ewyllys resymol, y dyn sydd yn gweithredu yn ol egwyddorion." Mae'n bosibl i ddyn o'r *type* hwn i fod hytrach yn galed ac anhynaws ac i fethu yn adnoddau y bywyd hwnw a gyfoethogir gan gyffroadau uchel a brwdfrydig. Mewn rhai cyfeiriadau beth bynag, yr oedd Kant, fel mae'n digwydd yn aml, yn well na'i gredo, a rhoddir iddo y cymeriad o fod yn ddyn caredig a haelionus tu hwnt i'r cyffredin. Yr oedd ganddo berthynasau agos, a'r rhai hyny mewn amgylchiadau ag y bu ei garedigrwydd cyson yn gymhorth iddynt trwy ei oes. Yr oedd bob amser yn edrych am gyfleusdra i helpu myfyrwyr oeddent, trwy ddigwyddiadau neillduol, wedi colli moddion cynhaliaeth. Un o'r geiriau diweddaf a gofnodir am dano, yw y buasai yn ddiolchgar i rywun am ei osod ar y ffordd i wneud gweithred garedig. Dim ond

UN YSMOTYN ANYMUNOL

sydd yn llychwino dysglaerdeb caricter ardderchog yr hen athronydd. Mae'n amlwg nad oedd ef ddim wedi ei wneud o ddefnydd y prophwydi a'r merthyron, na'r defnydd chwaith ag y mae rhai o broffeswyr enwog prifysgolion yr Almaen wedi ei wneud o hono. O dan agos yr un amgylchiadau, gyrwyd De Wette o'i broffeswriaeth yn Mhrifysgol Berlin, collodd Ewald ei le yn Göttingen, a Mommsen yn Leipzic. Ond yr oedd gormod o olwg gan Kant ar ei le tawel yn y Brifysgol ac ar Koenigsberg ei dref enedigol, i actio'r dyn yn hollol pan y daeth y storom. Yn wahanol i Ffredrig Fawr, dangosodd ei olynydd ar orsedd Prwssia, yn fuan ar ol ei esgyniad, sêl neillduol dros dduwinyddiaeth Lutheraidd yr Eglwys Sefydledig, a daeth rhai o athrawon y Prifysgolion ac yn eu plith, Kant, o dan ddrwgdybiaeth.

HERETIC OEDD KANT,

ac onid yw yn syndod fod pob un braidd sydd yn gwybod rhywbeth ac

yn meddwl yn debyg iawn o droi allan yn heretic? Felly yr oedd hi y pryd hwnw; felly mae hi heddyw. Rhesymolwr (*Rationalist*) oedd Kant, ac ni ellid cymodi ei athroniaeth ag athrawiaethau yr Eglwys Lutheraidd. Daeth hyn yn hollol amlwg gyda chyhoeddiad ei waith o dan y teitl "Crefydd tu fewn i Derfynau Rheswm Pur," yn 1794. Mewn canlyniad derbyniodd lythyr oddiwrth y cynghor llywodraethol yn amlygu anfoddlonrwydd y brenin, ac yn ei wahardd i ddarlithio ac i ysgrifenu ar bynciau crefyddol o hyny allan. Yn ei ateb amddiffynodd Kant ei hun yn gyflawn yn erbyn y cyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn, honodd ei hawl fel myfyriwr i ffurfio barn anibynol ac i wneud ei argyhoeddiadau yn adnabyddus; ond wedi'r cwbl, yn unol a'i natur a ogwyddai at ddystawrwydd a heddwch, rhoddodd ei hawl i fyny ac addawodd ymgadw yn y dyfodol oddiwrth unryw gyfeiriad at grefydd yn ei ddarlithiau a'i ysgrifeniadau. Addefa Paulsen, pe buasai efe wedi cyhoeddi, fel y gwnaeth Socrates ar amgylchiadau tebyg, fod ganddo genadwri uwch yn y byd na'r broffeswriaeth a gyflwynwyd iddo gan lywodraeth Prwssia, buasai tudalen yn hanes ei fywyd, ac yn hanes athroniaeth yr Almaen yn

FWY DYSGLAER NAG Y MAE.

Addawsom i ni ein hunain ac i'n darllenwyr ryw fraslun o addysg Kant ar brif faterion ei athroniaeth. Mae'r pwnc yn anhawdd, ac feallai heb fawr ddyddordeb i ran fwyaf o'n darllenwyr. Felly ymataliwn rhag gwneud yr ysgrif yn hirach nag ydyw. Mae rhan fawr o ddamcaniaethau Kant nad ydynt wedi sefyll eu tir; ond mae ei yspryd yn fyw, mae y symudiad a greodd ef yn parhau. Erys ei syniad mai meddwl sydd yn oruchaf yn y bydysawd ac mewn dyn i ysprydoli athroniaeth ddiweddar, ac mae y dywediad derchafedig hwnw o'i eiddo "fod dau beth yn llanw ei feddwl ag edmygedd â pharchedig ofn sydd byth yn newydd a byth yn cynyddu—*y nefoedd uwchben a'r ddeddf foesol oddifewn*" yn ein harwain yn uniongyrchol at galon y presenoldeb dwyfol.

LEWIS LOYD YR ARIANYDD.

[Parhad o'r Rhifyn diweddaf.]

Yn amser gweinidogaeth Lewis Loyd yr oedd capel bach Dob Lane yn wahanol iawn ei sefyllfa i'r hyn ydyw heddyw. Y pryd hwnw yr oedd yn y wlad ac yn mhell o Manchester; ac i fyned ato elid ar hyd llwybr trwy ganol caeau gleision, ac yna ar hyd heol gul gyfyng rhwng dau glawdd nes dyfod at allt ac yno y gorweddai'r capel, yn guddiedig ac o'r golwg. Ar hyd yr heol hon y gwelid Mr. Loyd, gynt, bob Sul yn myned i'r gwasanaeth, ar gefn ei ferlyn gwyn Cymreig. Creadur bychan gwyllt ydoedd hwnw heb fod yn caru llawer o waith, a thybir mai efe oedd yr unig ffortun gafodd Loyd heblaw ei addysg pan aeth oddicartref.

Mae yn hen ddywediad nad yw wiw gosod gormod o arian yn mhoced dyn ieuanc pan yn ei anfon i Lunden i hel ei ffortun—fod haner

coron yn debyg o brofi'n well na rhagor. Taflwch chwi greadur i'r dwfr, ac fel y gwyddoch, y mae'n sicr o nofio. Fe bair angen, sydd mor fynych yn fam dyfais, i ddyn ôsod allan holl adnoddau ei feddwl ar waith fel y mae llwyddiant bron yn wastad yn canlyn.

Wedi gadael y weinidogaeth (1792) a phriodi Sarah (bu farw Hydref 1, 1821) merch John Jones, ni fu Loyd yn hir cyn cael ei wneuthur yn un o gwmni'r Banc gan ei brodyr Samuel a William Jones, a chael ei ddanfon i arolygu'r gangen oedd newydd ei hagor yn Llunden. Yma'n fuan dangosodd ei fod wrth bob tebyg wedi cael gafael mewn tamaid o'r *philosopher's stone* sydd yn cael y gair ei bod yn gallu troi pob peth gyffyrddo yn aur. Dygai Lewis Loyd i'r golwg bob dydd y reddf, y wybodaeth, y medr (*tact*) cynyddol, yr holl yni anorchfygol oedd ganddo, a chyfunai hwynt ar y gwaith mewn llaw fel y diflanai pob anhawsder o'i flaen, a throai pob peth yn llwyddiant o dan ei ddwylaw. Yr oedd yn hyn yn esiampl ardderchog i bobl ieuainc. Nid oedd efe mewn ofn parhaus rhag gwneuthur mwy na'i ran o'r gwaith oedd o'i flaen. Ceir ambell i ddyn ieuanc weithiau yn tori mesur ei waith yn ol yr hyn a dybia efe yw mesur y gyflog. Bydd hwnw yn gyffredin ar y mesur byr. Nid yw yn treio gwneuthur ei wasanaeth o gymaint gwerth fel y bydd i'w gyflogydd deimlo nas gall yn rhwydd wneuthur hebddo; ac felly pan ddaw adeg o gyfyngdra gwaith, y mae'n cael myn'd, gan y bydd yn hawdd ddigon cael ei gystal yn ei le.

Fel hyn yr ysgrifena un o'i fywgraffwyr: "Yr oedd ei onestrwydd diwyrni, ei anrhydedd ymddiriedadwy, ei ofal manylgraff, a'i ddyfalbarhad, yn bethau y dylai ein darllenwyr ieuainc eu hefelychu, os am ymgodi mewn cymdeithas a dyfod yn mlaen yn y byd. Nid oes y fath beth a llwyddo yn ein ymwneud ag eraill heb fod yn eirwir a theilwng o ymddiried. Gwamalrwydd, dauwynebedd, a diofalwch yw yr elfenau mwyaf dinystriol i lwyddiant dyn ieuanc. Nis gwaeth pa mor gryf fydd y galluoedd, pa mor fywiog y dymer, na pha mor ddiddan fydd y dawn siarad, os bydd twyll, dichell a brad yn y galon. Gwell gan bawb ddyn unplyg, diddawn na dyn doniol twyllodrus. Cywirdeb moesol yn unig a sicrha ymddiried a pharch, er y gall dysg a dawn a medr roddi rhyw fath o ddifyrwch cymysglyd am ychydig amser. Gwell cymeryd amser i ffurfio nodwedd sefydlog, na bod yn wageddus ac awyddus am glod anhaeddianol heb gymhwysder i'w ddal i fyny. Ychydig feddyliodd Lewis Loyd am glod dynion, ond gan iddo ddangos ei hun yn ddyn sefydlog ac ymddiriedol, efe a gafodd anrhydedd a chyfoeth."

Ei hoff waith yn ei henaint, yn ei balas pendefigaidd yn Overstone, oedd adrodd hanes ei fywyd fel myfyriwr yn y Coleg yn Abertawe. Daliodd gysylltiad agos a'r enwad Undodaidd hyd adeg marwolaeth y Dr. Abraham Rees (1742—1825) ac er i'w sel wedi hyny lacâu, eto cyfranai'n achlysurol at achosion y byddai yn teimlo dyddordeb ynddynt. O'r flwyddyn 1835 cyfranodd ugain gini'r flwyddyn at wobrwyon i fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin; ac o'r flwyddyn 1846 cyfranai'n rheolaidd at yr achos Undodaidd yn Northampton. Yr oedd y Parch. William Arthur Jones, M.A.* yn weinidog Northampton 1841—1849, ac ar delerau cyfeillgar ag ef. Bu farw Lewis Loyd Mai 13, 1858 yn 90 oed, gan adael gweddw (yr ail wraig) ac un mab ar ei ol.

SAMUEL JONES LOYD (1796—1883), mab, ac unig blentyn Lewis Loyd, a anwyd Medi 25ain, 1796; addysgwyd ef yn Eton ac yn Nghaergrawnt; A.S. (Rhyddfrydig) dros Hythe 1819—26; ymgeisydd af-

---

*Brawd y Parch. J. Edward Jones, Penbont-ar-Ogwy, Golygydd cyntaf yr YMOFYNYDD—1847—65; ac awdwr y Bywgraphiad yn y *Christian Reformer*.

lwyddianus dros Manchester 1832. Yr oedd yn siaradwr dengar a llwyddianus, ond ni ddarfu iddo wneuthur un cais am sedd na chymeryd un rhan mewn *party politics* ar ol hyn. Dywed yr *Encyclopædia Britanica* fod Deddf Bancio 1844—5 wedi ei sylfaenu ar draethodau cyhoeddedig y Barwn Overstone ac ar y dystiolaeth a roddodd gerbron y *Royal Commission.* Efe oedd cadeirydd Pwyllgor Newyn Gwyddelig 1847; yr oedd yn aelod o'r *Volunteer Commission* 1860; un o ymddiriedolwyr y *National Gallery* 1850; dyrchafwyd i Dŷ'r Arglwyddi Mawrth 5, 1850; D.C.L. Mehefin 4, 1854; yn 1839 priododd Harriet merch Ichabod Wright, Mapperley Hall, Northamptonshire; bu farw Hydref 17, 1883, gan adael ar ei ol eiddo personol, £2,100,000, ac unig ferch ac etifeddes, sef

HARRIET SARAH (ganwyd yn 1835) yr hon aeth yn wraig i Col. Robert *Loyd*-Lindsay (g. Ebrill 16, 1832) Hydref 17, 1858. Bu Col. Lindsay yn A.S. dros Boston 1865—85, pan y dyrchafwyd ef i Dŷ'r Arglwyddi dan yr enw Barwn Wantage. Bu farw Meh. 10, 1901 yn ddiblant.

Corfforwyd banc Jones, Loyd and Co. yn y London & Westminster.

Q.Q.

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

XVI.

Mae gobaith yn ymagor
Fel boreu o Ebrill gwyrdd:
A blodau cynta'r tymhor
Yn perarogli'r ffyrdd—
Mae iechyd yn yr awel,
Chwareua ar bob bryn—
Chwardd anian pan y dychwel
Gwedd gobaith—gobaith gwyn.

Yn mhen rai dyddiau yr oedd Geraint wedi cael llwyr wellhad, ac wedi gadael y Clafdy, a'r weinyddes Seisnig brydferth. Nid y'm yn sicr nad oedd deigryn bychan yn llygad yr eneth pan r'odd y Cymro ieuanc law-siglo iddi wrth ymadael a'r *Hospital.* A da i Geraint hefyd ei fod wedi derbyn *inoculation* cryf cyn dyfod o Gymru, onide, mae'n ddiau y buasai wedi syrthio i grafangau clefyd arall o fewn muriau'r Clafdy hwnw yn Llundain.

Wedi cael ei hun yn ol eto o dan gronglwyd ei gyfaill diball, Mr. Graianwy, teimlai Geraint ei fod wedi cael lês newydd ar ei fywyd, ac er ys llawer mis nis ymddangosasai'r dyfodol mor wyn o'i flaen. Gwelai Graianwy ac yntau erbyn hyn fod ei ofid a'i helynt blaenorol i raddau mawr yn ddyledus am eu bodolaeth i ystad ei iechyd; rhyfedd fel y mae'r byd yn cyfnewid i'n golwg gyda chyfnewidiad yn ein ystad gorfforol; y mae'n syndod y cysylltiad cyfrin sydd rhwng yr ymenydd a'n dedwyddwch beunyddiol!

A oedd Geraint eisoes wedi anghofio ei erledigaeth o'r Mynydd, ei sefyllfa sigledig bresenol, ei ddyfodol ansicr,—a oedd y pethau hyn i gyd wedi peidio ei flino? ac a oedd efe

wedi anghofio Nwyfa? Na, nid oedd wedi anghofio y pethau hyn; ac yr oedd Nwyfa mor fyw yn ei gof a'i galon ag erioed; ond yr oedd yn teimlo mwy o gryfder gwr yn ei fynwes, a synwyr a gallu dyn yn ei ben. A phenderfynai yn awr ymddwyn fel dyn, ac ymladd fel dyn, ie, a charu Nwyfa, er yn absenol, fel dyn, gan ffyddiog adael yr oll i ofal y dyfodol.

A pha beth oedd i'w wneud am ei fywioliaeth? O ba gyfeiriad gonest oedd ei fara beunyddiol i ddeilliaw? Gwelai Mr. Graianwy, a gwelai Geraint erbyn hyn, mai maes y meddwl a thiriogaethau yr yspryd a fwriedid gan natur iddo ei gwrteithio. Dechreuodd ddarllen gydag awch newydd lyfrau o waith meistr-feddyliau'r byd, ac ymsuddai angel-feddyliau i'w enaid mewn modd hollol newydd. Ymhyfrydai ar feusydd athroniaeth, dotiai ar lenyddiaeth fawr gelfyddydol y byd, ymgollai yn marddoniaeth y clasuron, ac yr oedd hyd yn nod gwyddoniaeth yn felus i'w chwaeth. Ac, am y presenol, enillai ei fara beunyddiol drwy edrych i fewn i gyfrifon masnachol Mr. Graianwy. Yr oedd yr olaf ei hun o chwaeth lenyddol; ond yr oedd blynyddau o fasnachu didor wedi gadael ei feddwl yn dlawd, a'i boced yn gyfoethog. Yn mlynyddau prysur y siopa yn Llundain nid oedd wedi cael llawer o amser i gyfeillachu a neb, er fod ganddo chwaeth naturiol at lyfrau. Ac yn ddiweddar yn unig y gwelsai Mr. Graianwy fod rhywbeth uwch ac amgenach yn y byd na'r *sport* o fasnachu; ac fod ganddo ddigon o gyfoeth eisoes yn ei goffrau i'w wneud yn gyfforddus am y gweddill o'i oes. Nid oedd y ffaith yn wybyddus i Geraint, ac ymdaflodd i gyfrifon ei noddwr gydag yni a gonestrwydd yn y dydd; a chai yr hwyr iddo ei hun, a'i lyfrau, ac i'w deithiau hyd ddinas fwyaf rhyfeddol y byd.

Yn nghyfeillgarwch Mr. Graianwy, ac yn ei wasanaeth teimlai ddedwyddwch yn dyfod drosto nas teimlasai er ys amser hir, ac yn nghanolbwynt meddyliol Prydain, os nad y byd, teimlai yn berffaith hapus, hyny ydyw, mor berffaith hapus ag y gellid disgwyl iddo fod ar wahan i Nwyfa Roberts. Gwelai hefyd erbyn hyn y mater hwn mewn goleuni newydd. Onid oedd Nwyfa yn ei garu? onid dyma ei chyfaddefiad olaf wrtho, mewn gweithred, os nad mewn gair? A pheth oedd yn ei wahanu ef a Nwyfa erbyn hyn ond rhyw drichant o filldiroedd a rhagfarn ei thad? A pha beth yw pellder lle bo cariad, ie, a gagendor—

> "Pe'n ddyfned ag annwn,
> Pe'n lleted a'r mor."

Ie, ac y mae serch wedi gorchfygu rhagfarn tad cyn hyn, os gwir a groniclir ar dudalenau hanes.

Un peth yn unig, feddyliai Geraint, oedd i'w wneud, sef codi ei hun i sefyllfa deilwng o Nwyfa, ac o hono ei hun. A thyma'r unig anhawsder erbyn hyn. Ac yn awr nid oedd yr anhawsder ond yn rhoddi mwy o archwaeth at yr ymdrech i'w orchfygu. Ychydig ddyddiau yn ol yr oedd y cyfan yn ei lwfrhau, ac yn ei ddirwasgu a'i ddiwroli; ond erbyn hyn yr oedd y fron ieuengaidd eto'n gref a dewr, ac fel yn gwaeddi am brofedigaethau i'w goroesi. Penderfynodd Geraint hefyd mai pregethu ydoedd swyddogaeth ei fywyd, ac mai pregethu a wnai eto cyn gynted ag y cliriai y ffurfafen iddo. Ond tybiodd mai doeth oedd aros yn gyntaf nes y gallasai gael allan yr oll o'r achosion a'i gyrodd ef o'i weinidogaeth yn y Mynydd, Sir G———. Yr oedd Mr. Graianwy wedi clywed yr holl helynt ganddo, ac erbyn hyn yr oedd hyd yn nod wedi dadlenu cyfrinach Nwyfa i'w gyfaill a'i noddwr.

O ran sect, Methodist oedd Mr. Graianwy ei hun, ond yr oedd galluoedd naturiol cryfion, a throad yn mysg dynion o lawer cred wedi ei godi uwchlaw rhaniadau crefyddol, heb ddinystrio ei grefydd yn y fargen. Ar y Sul mynychai Geraint yr un capel a'i gyfaill, gan y tybiai y buasai ei bresenoldeb yn y capel

Undodaidd Cymreig yn Llundain ar yr adeg hon, yn codi ymholiadau yn ei gylch, na thybiai y buasai doeth eu codi ar yr adeg bresenol.

XVII.

"Fe wyddai'r byd, er's oesau'n ol,
Mai ffol yw llwybrau camwedd:
Y lleidr fu'n hir beri braw
I'r fagl ddaw o'r diwedd."

Am ryw reswm neu gilydd yr oedd Sidney Howells gartref er ei bod yn *term-time* yn Rhydychen. Dywedai Sophia, ei chwaer, mai 'wedi gorfod *studio* gormod ar gyfer ei *examinations*' oedd Sidney ei brawd, 'a'i fod wedi cael ei *ordro* adref gan ei *physician*.' Mynai eraill mai gorfod d'od adref oedd am nad oedd gan ei Barchedig dad ddigon o 'arian' i'w gadw ef yn Rhydychen yn mhellach. Eraill a fynent mai cymeryd tipyn o *holidays* yn *extra* oedd Sidney er mwyn cael cyfle i 'garu' Nwyfa Roberts; ond yr oedd Deio'r Go' wedi lled dybio mai wedi gwneud rhyw 'lymandrwg' yn Rhydychen a wnaethai y gwr ieuanc, a'i fod wedi cael ei ddanfon adref i feddwl am ei bechodau am dymhor.

'Coelwch chi fi,' meddai Deio, ''rwy'n misteco 'n ofnadw os nad pen-raget yw'r crwt Sidney Howells na; a grondwch chi yto os nad wedi câl y drôd o Rhydychen mai e.'

Yn wir yr oedd golwg Sidney yn ddarlun perffaith o iechyd, wrth ei weled yn cerdded drwy y pentref yn ei *knickers*, a'i bibell gam fawr yn ei geg yn chwythu digon o fwg i gerbydres fechan. Yr oedd yn fynych iawn yn troi i mewn i weled Mrs. Humphrey Roberts; *Mrs.* Roberts, ac nid Mr. Roberts, na Nwyfa, sylwer. Yr oedd mam Nwyfa bob amser yn llawn serchogrwydd iddo, a'r gader, a'r tân, a'r tê, a'r swper bob amser yn ei ddisgwyl yno. Ond er cymaint 'wyneb' oedd gan Sidney, yr oedd presenoldeb Nwyfa bob amser yn gosod y *damper* arno i ryw raddau, ac yr oedd oerfelgarwch y ferch yn fwy na gwneud i fynu am groesaw y fam. Er hyn i gyd, er mwyn cadw i fynu ei *respectability* yn y pentref, ac am resymau eraill, byddai Sidney yn taro i fewn i dy'r pregethwr Methodistaidd o dro i dro, ac er y cyfan, byddai yn cyfranu o ddanteithion Mrs. Roberts yn lled aml. Ar yr adegau hyn, byddai Nwyfa yn cymeryd rhyw esgusawd, fod ganddi neges i'r Siop, neu ei bod wedi addaw myned allan i dê i rai o'r ffermydd cylchynol—unrhyw esgusawd er mwyn cael dianc rhag un a gashâi a chas perffaith.

Ac yn mrig yr hwyr fel arfer byddai Sidney, yn anweledig i'r cyhoedd yn cymeryd tro gydag Ethel y Siop—eneth wan, serchoglawn, a ffol. Anaml y gwelid Sophia Howells gan bobl y pentref y dyddiau hyn. Yr oedd y son wedi myned ar led ei bod ar briodi a rhyw 'wr boneddig o bant.' Y gwir oedd fod rhyw fasnachydd o Forganwg, ar fin myned yn fethdalwr, wedi clywed fod yna boced dda gan ferch yr offeiriad, a'i fod wedi bod yn talu sylw iddi yn ddiweddar, ac wedi bod yn teithio y wlad yn ei chwmni. Yr oedd yn wr allsai fod o unrhyw oedran—o ddeg ar hugain i ddeg a thriugain; ac wedi hanu yn wreiddiol o unrhyw radd o gymdeithas o'r eiddo glowr i'r eiddo swyddog uchel yn y fyddin Brydeinig. Ond gadawn garwriaeth Sophia Howells, gan nad oes ynddi ddigon o ramant i ddyddori neb. Os mai priodi a byw'n ddedwydd byth wedi'n fydd ei thynged, caiff y darllenydd amyneddgar wybod cyn y diwedd.

Anaml y byddai Sidney Howells yn galw yn efail Deio'r Go', am y rheswm cyntaf nad oedd ganddo ddigon o ddyddordeb llydan yn y natur ddynol; ac yn ail am nad oedd gan Deio na thê na swper i'w cynyg iddo. Gallsem ychwanegu fel trydydd rheswm, nad oedd Deio, ys dywedai yntau, 'yn hidio dim am y iolyn pensycan ag e'.'

Ond gan feddwl cael tipyn o *scandal* y pentref a thipyn o ddifyrwch gan Deio, a gobeithio hefyd y

cawsai ryw *hint* pa fodd yr oedd ei ddial ar Nwyfa a Geraint wedi gweithio, galwodd Sidney yn yr efail, a'i bibell yn ei safn, a'i wydrau ar ei drwyn dwfn-ddysg, a'i ddwylaw yn llogellau ei *knickers* fel arfer.

'*Good morning*, Deio, 'rwy'n d'od i'ch gwel'd ch'i,' ebai Sidney.

'Diolch i ch'i am yr anrhydedd,' atebai Deio, gan guro ar y bedol oedd ganddo, ac heb gymaint ag edrych ar Sidney.

'Ry'ch chi'n fishi iawn y bore 'ma, Deio,'

'Odw, 'rwy'n treio enill tipyn o fara chaws yn onest, peth nad yw pawb yn 'neud.'

''Run ni i gyd yn gweitho yn ein ffordd Deio, rhai a'u penau a'r lleill a'u dwylaw. 'R'ych chi'n gwel'd ma gweitho a mhen 'rw' i.'

'Ie, ry'ch chi'n gweitho'n galed i gario'r bib 'na â'ch pen, wn i am ddim arall i chi'n 'neud, ond gwmynt ag wn i am ych scêms ch'i i 'neud drwg i ddynion gwell na chi 'ch hunan.'

'Be' chi'n feddwl! *What do you mean, Deio*,' gofynai Sidney gan gochi hyd ei ddau clust, ac edrych yn gyffrous.

''R wy'n meddwl beth wy'n 'weud, Mistir Howells, a chyn wired a bod y morthwyl ma yn 'y llaw i, mi weda ragor am dano chi hefyd; 'ry'ch chi wedi gneud troion gwael a rhai o fobol ore'r gwmdogaeth ma. Ag os na wyr neb arall ond chi a fine a chroten fach y Siop 'na am ny, mae'n hen bryd iddyn' nhw gâl gw'bod.'

Ro'dd Sidney erbyn hyn mor wyn a'r pared gan ddigofaint.

'Edrychwch 'ma Deio, os gwedwch ch'i air yn rhagor dyma chi'n i chal hi,' bloeddiai Sidney, gan ymaflyd mewn darn o haiarn o'r ffenestr.

'Ydych, 'r y'ch chi'n ddigon o *scamp* i fwrw hen wr fel fi i lawr. Dyna ryddid i chi. Treiwch chi. Bydd bwrw Deio'r Gof i'r llawr yn weithred fach iawn yn ymyl tori calon lodes, gyru bachgen o weinidog bant i Lunden, a sarnu eglwys gyfan. Dyma fi, a 'ry'ch chi'n ddigon o flagard i 'neud unrhyw beth; *ac os ca' i fyw hyd bore fory mi geiff yr holl bentre wbod hyny.*'

A safodd Deio ar ei glin iach, a'r morthwyl yn un law a'r bedol yn y llaw arall, gan sefyll yn ddewr gogyfer a Sidney Howells.

'Yna mi ofala i na chewch chi ddim *chance* i weyd wrth neb,' ac yn mhen eiliad dyma Sidney yn rhuthro ar yr hen ôf.

Ond ar darawiad amrant, cyn braidd i Deio syrthio i'r llawr, dyma wr mewn dillad glas a botymau gloewon yn rhuthro drwy y drws, ac yn gwneud am goler Sidney,

'*Excuse me a minute sir, I want your company to the Station*,' eba'r heddgeidwad, mewn tôn *sarcastic*. Nid oedd Sidney, er mor gyhyrog yr oedd ond megys plentyn yn nwylaw cawraidd gwr y gyfraith. Cyn pen dwy fynud yr oedd Sidney mewn cerbyd, a *handcuff* ar ei ddwylaw yn gyru rhwng dau heddgeidwad i Langraianwy. Yr oedd amryw bentrefwyr erbyn hyn wedi crynhoi o gylch yr efail, a Deio yn uchel ei gloch yn eu plith. Yr oedd Sidney yn ddiamheu wedi anelu ergyd difrifol ato, ond syrthiodd y naill ochr, ac achubodd ei hun. Gyda'r eithriad i Sidney syrthio'n drwm ar ei ben, ni chafodd fawr niwed.

'Eitha reit a'r c———l,' oedd sylw Deio ar yr amgylchiad; a chytunai'r rhan fwyaf o'r pentrefwyr ag ef.

Yr oedd Deio'n edrych ar yr amgylchiad fel cyfryngiad neillduol ar ran Rhagluniaeth i'w waredu rhag marwolaeth ddisyfyd ar law Sidney Howells, ac ni ddaeth i'w feddwl nad y nefoedd oedd wedi anfon y *policeman* yn uniongyrchol i'w achub rhag trancedigaeth sydyn. A phwy a fyn ddweyd yn wahanol?

Aeth y si drwy'r pentref fel tân gwyllt fod Sidney Howells wedi ei gymeryd ymaith yn garcharor, am geisio llofruddio Deio'r Go,' meddai llawer; am ladd dyn yn Rhydychen, meddai ereill; am ddwyn arian oddiar rhyw *millionaire* yn Llundain, meddai'r gweddill.

Mae'n ddiamheu fod y gwir achos yn wybyddus yn y *Vicarage*, ond wrth gwrs ni feiddiai neb alw yno i ofyn, er cymaint eu hymofyngarwch. Braidd y gwnaed gorchwylyn o waith yn Llwydfaen y gweddill o'r dydd hwnw. Sidney Howells a Deio'r Go' oedd ar wefusau pawb, a thyrai gwrageddos, a phlant, a gwrywod mewn oed at eu gilydd ar wahanol gonglau'r heolydd i drafod cwestiwn y dydd. Dywedir i Mrs. Humphrey Roberts, yn iaith y wlad, 'bango dair gwaith' wedi clywed y newydd, ac oni bai am botelaid o *smelling salts* gan Nwyfa, y buasid wedi gorfod gyru i Langraianwy am Dr. Jones i weini arni.

Erbyn hyn yr oedd Deio wedi dweyd yn gyfrinachol wrth amryw gyfeillion yn y *Bridge End* yr hyn a glywsai o siarad Sidney ac Ethel y Siop, ac am awduriaeth y llythyrau a ysgrifenasid at swyddogion Eglwys y Mynydd parthed cymeriad Geraint Jones, am helynt Nwyfa a Choleg Abertaf; ac erbyn dranoeth yr oedd y si wedi myned ar led mai am *forgio* llythyrau yr oedd Sidney wedi ei garcharu. Dranoeth yn foreu hefyd clybuwyd fod Ethel y Siop yn wael iawn, 'dim ond i bod hi,' ys dwedai'r pentrefwyr; a'i bod wedi danfon ar unwaith am Nwyfa Roberts a Mr. Humphrey Roberts i'w gwel'd; mewn gair yr oedd hi wedi ei tharo yn sal yn sydyn iawn, ac yr oedd ar fin marwolaeth.

Yn y papyrau dyddiol dranoeth yr oedd y penawd hwn i'w weled mewn llythyrenau breision: 'EXTENSIVE FORGERIES: IMPLICATION OF A C———SHIRE GENTLEMAN.'

A gwelwyd mai *forgio* enw boneddwr o Langraianwy ar *cheques* oedd trosedd Sidney Howells.

(*I'w barhau.*)

YR *HIBBERT JOURNAL.*

Ni synem na fydd y rhifyn diweddaf o'r *Hibbert Journal* yn cael ei ystyried y mwyaf dyddorol os nad y goreu oddiar y cychwyn. Cyn dechreu darllen y cynhwys tynir ein sylw gan safle uchel yr ysgrifenwyr. Mae dau o honynt yn dal cysylltiad agos a Chymru. O bosibl Henry Jones, proffeswr Athroniaeth Foesol yn Mhrifysgol Glasgow, oddiar safle golegol (*academic*), yw Cymro mwyaf ei oes. Ei erthygl ef ydyw y blaenaf,—ar agwedd foesol y cwestiwn cyllidol sydd o flaen y wlad. Ychydig o sylw, fel mae gwaethaf y modd, delir gan wleidyddwyr i ochr foesol cwestiynau mawrion y dydd. Pe gwnaethid hyny, hawdd fyddai penderfynu yr holl ymryson yn nghylch Addysg, Trwyddedau y Tafarndai, Llafur Chineaidd yn South Affrica, a pholisi rhyfelgar y wlad trwy'r blynyddau. Mae y dull hwn o edrych ar bethau wedi myned mor ddieithr, fel mae'n dipyn o syndod fod cenhadwri Mr. Chamberlain yn cael ei gosod wyneb yn wyneb ag egwyddorion y Bregeth ar y Mynydd gan athraw Moeseg yn un o'r prifysgolion. Erthygl anghyffredin o dda, a mwy darllenadwy nag eiddo y Proff. Jones, er yn ymylu gormod ar ochr dywyll pethau, ydyw, *The Passing of Conviction*, gan Proff. Jethro Brown o Goleg Aberystwyth. Awgryma erthygl Sir Oliver Lodge ddau sylw. Dau o brif wyddonwyr y genhed-

laeth o'r blaen oedd Tyndall a Huxley, ac yr oedd y ddau yn amheuwyr ac Agnosticiaid, a gosodent eu hunain mewn gwrthwynebiad i bob agwedd o grefydd gadarnhaol. Dau o brif wyddonwyr yr oes hon yn Mhrydain Fawr yw Arglwydd Kelvin a Sir Oliver Lodge, ac mae y ddau yn llawn o'r yspryd gwir grefyddol. Ceisia Syr Oliver yn yr erthygl hon i roddi ystyr ac esponiad newydd i athrawiaethau Cristionogol. Mae yn awyddus i adeiladu ac nid i dynu lawr. Wrth gwrs, mae yr hen syniadau allan o'r cwestiwn, ac ymgais pob un sydd yn meddwl o ddifrif yw gosod crefydd i orphwys ar sylfaeni rhesymol a gwyddonol, na fydd un perygl iddynt gael eu syflyd gan unrhyw wybodaeth newydd. Erthygl nodedig arall, ac yn eithaf tebyg o greu cryn gyffro, yw eiddo Canon Henson ar "Adgyfodiad Iesu Grist." Creda y Canon fod rhywbeth wedi cymeryd lle i greu argyhoeddiad y dysgyblion, ac i ddwyn oddiamgylch y fath chwyldroad yn eu teimladau; ond mae yn hollol agnosticaidd gyda golwg ar y "pa fodd." Ymddengys fel wedi ei foddloni nad oedd yna ddim adgyfodiad o gorff yr Iesu, na bedd gwag chwaith. Ond beth am gredoau ac erthyglau yr Eglwys y perthyna y Canon iddi? 'Dyw heresi Denison Maurice, Dr. Rowland Williams, Dr. Colenso, Deon Stanley a H. R. Haweis, yn ddim ond chwareu plant yn ochr y beiddgarwch a dafla ddrwgdybiaeth yn nhudalenau yr *Hibbert Journal* ar y *Virgin Birth* a'r adgyfodiad y trydydd dydd. Yn ffodus i Eglwys Lloegr 'does dim i demtio Esgob Ripon i fyned dros terfynau yn ei erthygl ar "Gladstone fel personoliaeth foesol a chrefyddol." Nis gallwn hebgor lle i ragor nag un sylw ar adolygiad gwaith y Prifathraw Drummond o Goleg Manchester ar y bedwaredd Efengyl gan Canon Sanday. Cymer Drummond yr olwg draddodiadol ac iawnffyddol ar y cwestiwn, ac mae Dr. Sanday yn wenau i gyd, a bron dweyd fod genym yn awr y gair diweddaf ar y cwestiwn dyrus hwn oddiwrth un sydd yn meddu y cymhwysderau uwchaf i'w ddweyd. 'Does dim llawer o flynyddau wedi pasio er pan yr oedd yr un ysgrifenydd yn trin Dr. Martineau am gymeryd golwg wahanol ar y mater gyda'r wawdiaith lymaf, yn gymhwys fel pe byddai pob un yn hurtyn anwybodus nad oedd yn cymeryd yr un olwg ag ef ar y cwestiwn. O'n rhan ein hunain gwell genym ymddiried i reddf hanesyddol dyn o athrylith fel Martineau nag i ysgolheigdod sych a dilewyrch beirniaid y llythyren fel Drummond a Sanday, yn neillduol ar bwnc nad yw i gael ei benderfynu o gwbl ar dystiolaethau allanol yn unig.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd uchod yn Alltyplacca ar ddyddiau Mercher a Iau, Ebrill 6 a 7. Er ei bod yn adeg brysur ar yr amaethwyr, y rhai a ffurfiant y rhan luosocaf o'r boblogaeth yn y gymydogaeth, eto, cafwyd cynulliadau da, yn neillduol felly dydd Iau. Yr oedd yr holl weinidogion perthynol i'r eglwysi Cymreig yn Ngheredigion a Morganwg yn bresenol, yn nghyd a'r Parch. W. James, B.A., J.P., ysgrifenydd y Gymdeithas; y Parch. J. E. Jenkins, Padiham, gynt o Dowlais; a'r myfyriwr J. D.

Jones, Rhydychen. Dim ond amgylchiadau anorfod allai rwystro un gweinidog, o leiaf, i fod yn bresenol, am y gwyddom gyda'r fath ffyddlondeb mae gweinidog Alltyplacca wedi dilyn y cwrdd cwarter am y deugain mlynedd diweddaf. Yn yr hwyr dydd Mercher dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Rhoslwyn Davies, a phregethwyd gan y Parchn. J. P. Kane a D. J. Evans, Cwmbach.

Am 9.30 dydd Iau daeth y pwyllgor yn nghyd o dan lywyddiaeth y cadeirydd, y Parch. D. Evans, Cribyn. Cadarnhawyd manylion (*minutes*) y cyfarfod o'r blaen, a phenderfynwyd ceisio gan yr eglwysi i wneud eu casgliadau blynyddol at y Gymdeithas cyn y cyntaf o Fehefin. Erfynir hefyd ar y tanysgrifwyr eraill i anfon eu cyfraniadau erbyn yr un *date*. Yn wyneb y ffaith nad yw ein myfyrwyr ddim mor gyfleus ag y buont i wasanaethu fel *supplies*, galwyd sylw at angen pregethwyr lleygol i gynorthwyo ein gweinidogion ac i gymeryd rhan mor bell ag y gallant yn ngwaith cenhadol y Gymdeithas. Ar ol deall fod Mr. T. G. Thomas, Ffatri Crugeryr, Talgareg, un o leygwyr mwyaf defnyddiol a thalentog yn mhlith ein heglwysi yn Ngheredigion, ar gais taer rhai cyfeillion wedi penderfynu gosod ei hun at wasanaeth yr enwad, penderfynwyd yn unfrydol ei fabwysiadu fel un o bregethwyr lleygol y Gymdeithas, ac i roddi pob cefnogaeth iddo yn y cymeriad hwnw. Gwnaed yr un penderfyniad mewn cysylltiad a Mr. John Davies, Llanbedr, yr hwn a adnabyddir eisoes fel pregethwr cymeradwy a gobeithiol yn ein heglwysi; a chymhellwyd pob gweinidog ac eglwys i roddi cefnogaeth i ddynion ieuainc cymhwys i roddi eu gwasanaeth yn y cyfeiriad hwn. Dewiswyd un o dri o weinidogion i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfodydd Cymdeithas Llundain adeg y Sulgwyn. Mr. Jenkins, Llwyn, oedd yr unig un o'r tri oedd yn gyfleus i fyned. Galwyd sylw at y ffaith nad oedd ein heglwysi yn derbyn y cyfarfodydd blynyddol a chwarterol yn unol ag un cynllun trefnus a rheolaidd, gyda'r canlyniad fod un eglwys (Hen Dy Cwrdd, Aberdar) wedi croesawi pedwar cyfarfod yn ystod y deng mlynedd diweddaf; tair eglwys (Pantdefaid, Gellionen a Chapelybryn) dair o weithiau; tair (Llandyssul, Capelygroes a Brondeifi) ddwywaith, a'r gweddill unwaith, a rhai o honynt ddim o gwbl. Yn wyneb y sefyllfa hon, penderfynwyd yn unfrydol o hyn allan i gael trefn ar y mater, ac i gynal y cyfarfodydd yn ein capeli ar yn ail. Nid yw hyn ond tegwch, ac ni fydd yn dasg i un eglwys, gan mai dim ond unwaith bob saith mlynedd y syrth i'w rhan. Deallwn oddiwrth adroddiad y Parch. Lewis Williams fod gwaith y *Postal Mission* yn myned yn mlaen, a digon o ddyddordeb wedi ei greu yn mhlith ymofynwyr i'n cyfiawnhau i barhau yr hyspysiadau yn y newyddiaduron. Cynhelir y cwrdd blynyddol yn yr Haf yn Llanbedr ar achlysur agoriad y capel newydd.

Am 11, arweiniwyd y rhanau defosiynol gan y Parch. E. O. Jenkins, a phregethwyd y bregeth appwyntiedig gan y Parch. D. Rees. Pwnc ei bregeth oedd y "ddafad golledig," a thynodd wersi tyner a byw oddiwrth yr hanes. Caiff cylch helaethach y pleser o'i darllen eto ar dudalenau yr YMOFYNYDD. Yn y prydnawn dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parchn. D. R. Davies a R. J. Jones, M.A. Yn yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. Arthur Thomas, a phregethwyd gan y Parchn. T. J. Jenkins, a J. Hathren Davies, Y.H. Gwnaeth eglwys Alltyplacca bob peth ag oedd yn eisiau er croesawi'r dieithriaid a diwallu eu hangenion; ac wedi i'r gweinidog dalu diolchgarwch i bawb am eu presenoldeb a'u gwasanaeth, ymadawyd gyda'r dymuniad am i'r gwirioneddau fod yn ddwfn a hirbarhaol yn eu dylanwad arnom oll.

Cyn dechreu gwasanaeth y prydnawn gwnaeth y Parch. R. J. Jones gyfeiriad at y ffaith fod Mr. Davies

yn mron gorphen deugain mlynedd yn y weinidogaeth yn Alltyplacca a gwnaeth awgrymiad na ddylid gadael achlysur mor bwysig fyned heibio heb wneud dathliad anrhydeddus o hono. Gobeithio y gwnaiff yr eglwys gymeryd y mater mewn llaw, a chredwn y caiff bob cynorthwy i wneuthur dathliad teilwng o honi ei hun a'r gweinidog parchus sydd wedi gwasanaethu mor ffyddlon mewn gwlaw ac mewn hindda am yspaid mor hir.

TATHOS.

CONGL YR AWEN.

YR ARWERTHWR.

[BUDDUGOL.]

Un da yw'r Arwerthwr, un dewr ar ei warthol,
Un hoff o amneidiau, o ddoniau go ddenol ;
Fe wertha yr ydau a'r gweiriau rhagoraf
I'r uwchaf ei gynyg ; dyrchafa y gwanaf ;
Mae'n llawn o ffraethineb, a'i wyneb yn wenau,
Yn nhwrf y cynygwyr yn rhifo ceiniogau.

Er gwaeddi " Myn'd ! myn'd ! " hen ffrynd hoff ei wrando
Yw'r gwron llafurus—oes foddus fo iddo ;
Trwy gymhorth ei "forthwyl" yr anwyl wr union
A dery feddianau i dyrfa o ddynion ;
Mor ddien ei babell ! Ymrodda yn bybyr
I godi ei arian ; a gwae y dyhirwyr.

DEWI HEFIN.

PRIODASAU.

MAWRTH 15fed, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Pontypridd, Mr. William Edward Williams, *Hairdresser*, 21, Clarke Street, Treorchy (nai i'r cerddor adnabyddus, Mr. W. Hevin Williams, Llanbedr), a Miss Annie Collier, unig ferch Mr. Wm. Collier, *Engineer*, 1, Holyrood Terrace, Llwynypia.

EBRILL 6ed, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Aberayron, unwyd Tom Lewis Jones, Blaeneinon, mewn glân briodas a Sarah Davies, Pantygwndwn, ger Bwlchyfadfa.

MARWOFION.

CHWEFROR 20fed, Dafydd Jones, 2, Rees Street, Treorchy, yn 69 mlwydd oed. Er y gwyddid fod oriau olaf ei fywyd gerllaw, eto prudd oedd y newydd i gynulleidfa y Pentre fod ei enaid wedi hedfan dros derfyn eithaf y ddaearol daith. Yn ei olwg ef y Sabbath oedd prif ddiwrnod yr wythnos, a gellir dywedyd mai teimladau y gwir addolwr ar y dydd cysegredig hwn oedd ei deimladau beunyddiol. Erys ei gymeriad yn brawf sicr o hyn. Ni fu wr ffyddlonach i grefydd erioed. Yr oedd yn un o sylfaenwyr yr Achos Undodaidd yn y lle hwn, a thaflodd ei holl gorph a'i enaid i'r gwaith o'i wneuthur yn fwy adnabyddus i'r lluoedd tuallan. Yr oedd gan bawb barch iddo ar gyfrif ei garedigrwydd a'i ddiniweidrwydd. Y dydd Llun canlynol cludwyd ei weddillion i fynwent Hen-Dy-Cwrdd y Cefn—y man y carodd son llawer am dano. Gadawodd blant ac wyrion i alaru ar ei ol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. R. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Rees, Penybont; J. Charles, M.A., Hermon, Treorchy; R. J. Jones, M.A., Aberdar, a J. Hathren Davies, Cefn.

MAWRTH 10fed, Rees Morgan, Heolddu, yn 83 mlwydd oed. Bu yn fynychwr cyson ac yn aelod gweithgar yn Gellionen am flynyddau lawer; ond yn ystod y rhan olaf o'i fywyd lluddiwyd ef i fod yn bresenol gan afiechyd, a phethau cyffelyb sy'n d'od gydag henaint. Profodd ei hun yn dad caredig, ac yn weithiwr caled am dymhor hir. Fe erys plant a pherthynasau mewn galar dwfn ar ei ol. Y Tad Goreu aroso yn dwr cadarn i'r galarwyr oll, yn arbenig i'r plant, a phlant ei blant. Claddwyd y rhan farwol o hono dydd Llun canlynol yn mynwent Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. J. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo ar lan y bedd gan y Parch. J. R. Price, Rhydyfro.

MAWRTH 23ain, Lewis Lewis, 80, Ystrad Road, Pentre. Gwr o alluoedd treiddgar, yn meddu ar reswm cryf eithriadol. Un o feibion caredig Ceredigion ydoedd, wedi ei eni a'i fagu heb fod yn nepell o swn hen gloch anwyl Llanwnen; ond er hyny wedi ei drwytho, wrth ddadblygu, â syniadau rhydd yr Undodwr. Yr oedd yntau, hefyd, yn un o sylfaenwyr yr achos yma, ac am hir flynyddau pan nad oedd cyfleusdra iddo fod hyd yn nod yn un o ddau neu dri wedi ymgynull ynghyd i addoli yr Unig Wir a'r Bywiol Dduw, glynodd yn ffyddlon wrth y goleuni uwch oedd ganddo. Ni ddenwyd ef gan athrawiaethau estronol; yn hytrach, cadarnhawyd yn fwyfwy ynddo y goleuni mwyn lewyrcha o hyd ar yr "ysmotyn du." Yr oedd ei gof yn hynod afaelgar, a melus odiaeth oedd gwrando arno yn adrodd hoff benillion o eiddo Daniel Ddu a Dafis Castellhywel. Cymerodd ei gynhebrwng le y Sadwrn canlynol, ac hawdd oedd canfod y parch enillodd tra'n byw yn y lle wrth sylwi ar y dorf ddaeth i dalu iddo y gymwynas olaf. Claddwyd ei weddillion yn Nghladdfa Gyhoeddus Treorchy. Gadawodd i hiraethu ar ei ol, briod ffyddlon, tri mab ac un ferch, a llawer o berthynasau. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. R. Davies, Pentre; D. Rees, Penybont, ac E. Davies (B.), Hebron, Ton.

MAWRTH 24ain, bu farw Daniel Davies, Three Horse Shoe, Cribyn, yn 41 oed, gan adael mewn galar ar ei ol weddw a phump o blant ieuainc, yn nghyd a mam, chwaer a brawd. Bu ein cyfaill am flynyddau yn arweinydd y gân yn Nghapel Cribyn, a llanwodd y swydd gyda ffyddlondeb ac ymroddiad; bu hefyd yn llwyddianus iawn mewn lluaws o gystadleuaethau yn y cymydogaeth. Yr oedd ei ddulliau denol fel arweinydd, yn ychwanegol at ei wybodaeth ger-

ddorol, yn ddiau yn elfen bwysig yn ei lwyddiant. Ar gyfrif ei wasanaeth yn y cylch hwn, yn ogystal ag ar gyfrif ei ddiniweidrwydd, mynwesem oll deimladau cynes tuag ato. Claddwyd ei weddillion yn Mynwent Cribyn y Llun canlynol, pan y talwyd iddo y gymwynas olaf gan nifer anarferol o luosog. Pregethwyd gan weinidog y lle; a gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parch. R. C. Jones.

MAWRTH 27ain, yn 73 oed, Mary, gwraig Samuel Evans, Frowen, Llanfyrnach, wedi bod yn briod anwyl am 53 o flynyddau. Yr oedd uwchben ei thraed rhyw bedwar diwrnod cyn ei marwolaeth; cafodd groesi yr afon yn hynod o esmwyth. Dydd Mercher, am 11, daeth lluaws yn nghyd i fyned a'i chorph yn yr elorgerbyd i Fynwent Moriah, Llanwinio, i ochr ei hanwyl blentyn a'i hoff berthynasau. Pregethodd y Parch. —. Davies, Moriah, oddiar Salm 90: 12. Ar lan y bedd cafwyd cynghorion dwys a gweddi deimladwy.

MAWRTH 29ain, Sarah Davies, Cerdin Cottage, ger Capelygroes, yn 57 oed, ar ol byr gystudd. Yr oedd yn ddisgynydd o un o sefydlwyr yr Achos yn y lle uchod; ac y mae'r teulu wedi parhau yn ffyddlon noddwyr iddo trwy'r ganrif sydd wedi pasio er ei sefydliad. Mynychai'r addoliad mor rheolaidd ag y caniatai ei iechyd; yr oedd yn bresenol mor ddiweddar a'r 14eg o Fawrth—Sul y *rehearsal*. Yr oedd yn cydfyw a'i chwaer, Margaret; ac a'r olaf yn ei hunigrwydd cydymdeimlir yn fawr. Dydd Gwener canlynol, daeth torf luosog iawn yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i orphwys gyda'i thadau yn Mynwent Capelygroes. Pregethwyd gan y gweinidog ar y gair "Gorphenwyd"—yn unol a dymuniad yr ymadawedig. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth lefyd gan y Parch. R. C. Jones.

EBRILL y 5ed, yn fis oed, Dan, anwyl blentyn Simon ac Eleanor Davies, Clyncoch, Llandyssul. Claddwyd yn Mynwent Capelybryn, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

EBRILL y 6ed, yn bythefnos oed, Mary Hannah Ellen, anwyl ferch David a Mary Jones, Clarence, Cwrtnewydd. Claddwyd yn Mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

EBRILL 6ed, Edith Hannah Hay, merch ieuangc George ac Ellen Hay, 10, Ynyswen Terrace, Treherbert, yn 13 oed. Marwolaeth ddisymwth iawn ydoedd hon. Yr oedd yn y capel mor hoew a neb y Sul blaenorol, ond cyn bod un Sabbath wedi'n, ei lle ni edwyn ddim o honi hi mwy. Ffydd yn Nuw fyddo yn nodded i'w rhieni dan yr amgylchiad. Claddwyd ei gweddillion yn Nghladdfa Gyhoeddus Treorchy y Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parch. Bathian Davies (A.), Carmel, Treherbert.

MANION AC HANESION.

RHYDYGWIN. — Nos Wener y Groglith, fel arfer, cafodd Ysgol Sul y lle hwn ei gwyl dê flynyddol. Y gwragedd caredig a ddarparodd y wledd oedd Mrs. Jenkins, Glanwern; Mrs. Howells, Ystrad House; a Mrs. Evans, Nantygelli; ac yr oedd eu dapariaethau yn hynod flasus. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adloniadol. Cymerwyd y gadair gan y Parch. D. Evans, Cribyn, ac arweiniwyd gan y gweinidog. Caed rhaglen faith o

ganu ac adrodd a darllen, ac aeth pawb drwy eu gwaith yn ardderchog. Arweinyddion y canu oedd Mr. Hughes, Rhydfydyr a Miss Zebeth Owen, New Inn. Mae Mr. Hughes yn haeddu ei ganmol am beidio rhoddi, gyda'r mwyafrif, yr esgusawd ei fod yn rhy hen i ganu. Ychydig o'i oedran ef welsom yn y cor. Dalied ati i fod yn esiampl i lawer. Cafwyd un gystadleuaeth ar y darlleniad goreu o'r emyn "Ar lan Iorddonen ddofn," ac ymgystadlodd llawer o fobl ieuainc a rhai mewn oed. Rhoddwr y wobr oedd Mr. Thomas Davies, *Stonecutter*, Hafod, Nantcwnlle. Nid aeth neb o'r cyfarfod hwn, mi gredwn, wedi ei siomi.

Bydd yn dda gan gyfeillion Miss Elizabeth Howells, Dolboidy, gael ar ddeall ei bod wedi pasio arholiad y *King's Scholarship*. Mae Miss Howells yn gwasanaethu fel athrawes gynorthwyol yn Ysgol Fyrddol, Felinfach. Yn adroddiad yr arholwyr gwneir cyfeiriad neillduol bob blwyddyn at waith boddhaol y plant sydd dan ei gofal. Dymunwn ei llongyfarch ar ei llwyddiant.

TYLORSTOWN.—Ar ddydd Gwener y Groglith cynaliwyd tê a chyfarfod cyflwyno anrhegion i'r diweddar weinidog a'i deulu, fel arwydd o barch personol tuag atynt; ac hefyd fel cydnabyddiaeth o'u hymdrechion diflino dros achos Cristionogaeth Undodaidd yn y Rhondda Fach. Ar ol tê dewiswyd Mr. William Edwards, Peirianydd, yn gadeirydd, yr hwn a wnaeth ei waith yn rhagorol. Cyflwynwyd *Jam Dish* arian i Miss Katie Rees gan Miss Mary Davies. Cyflwynodd Mr. John Williams, Gwarnant, Ferndale, *Cake Dish* arian yn dwyn yr argraph:—"*Presented by the Unitarians of Ferndale and Tylorstown to Mrs. Rees. April*, 1904." Cyflwynodd Mrs. Griffiths, Queen's Hotel, Tylorstown bwrs yn cynwys swm o arian (2*l* 12s. 6½d.) i Mr. Rees tuag at brynu llyfrau. Wrth gydnabod yr anrhegion aeth Mr. Rees yn fyr dros hanes y mudiad yn Tylorstown. Cyfeiriodd yn deimladwy at y rhai fu yn cydweithio yn Tylorstown, ond ydynt yn awr wedi ei symud i'r bywyd uwch. Cyfeiriodd hefyd at yr angen am well cydweithrediad rhwng eglwysi Sir Aberteifi ac eglwysi Cymreig Sir Forganwg. Talodd deyrnged o warogaeth i ffyddlondeb di-ildio y brodyr a'r chwiorydd yn Tylorstown. Er eu bod ond ychydig eto maent wedi profi eu hunain yn wrol yn ngwyneb gwawd a sèn llawer penboethyn enaid-gul. Nid ydyw Undodiaeth yn burchus eto yn y byd crefyddol, ond trwy ffyddlondeb a dyfalbarhad ar ran y rhai sydd yn coleddu y syniadau syml ac aruchel hyn, y gellir ei gwneud yn allu yn mywyd crefyddol ein gwlad. Terfynwyd cyfarfodydd na anghofir mo honynt yn fuan gan y gwyddfodolion, trwy ganu "Dan Dy fendith wrth ymadael," a thalu diolch i Roddwr pob dawn.

[Caiff englynion Perianydd ar yr achlysur ymddangos eto.—Gol.]

PANTDEFAID.—Llun y Pasc cynhaliwyd yr eisteddfod flynyddol yma a throdd allan yn llwyddianus iawn fel arfer, ac y mae'r llwyddiant hwn i'w briodoli i ymroddiad y bobl ieuainc yn y lle.

GRAIG.—Nos Fercher, Ebrill 13eg, cafwyd cyfarfod llwyddianus iawn gan y plant yma. Aethant drwy raglen ddyddorol o adroddiadau a chanu dan lywyddiaeth y Parch. W. James, B.A. Gwnaeth arolygydd yr Ysgol Sul, Mr. John Evans, Cyfreithiwr, gyflwyno anrhegion i'r rhai ffyddlon yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Yn ddiweddar cychwynwyd *Penny Bank* mewn cysylltiad a'r Ysgol Sul, ac y mae wedi creu brwdfrydedd neillduol yn mhlith yr aelodau.

CAPELYGROES.—Cynhaliwyd yr wyl dê flynyddol yn y lle uchod ar y 29ain o Fawrth. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mr. a Mrs. Williams, Heol y Bont, Llanybyther. Mae Mr. a Mrs. Williams yn adnabyddus er's blynyddau fel noddwyr haelionus pob achos da, yn enwedig mewn cysylltiad a'r gynulleidfa fedyddiol yn Aberduar. Ond nid ydynt yn cyf-

yngu eu haelioni, fel y gwelir, tu fewn i derfynau un capel na phlaid. Teimlwn yn ddiolchgar iawn iddynt; ac hefyd i Mrs. Sturdy a Mrs. Jones, o'r un lle, am eu presenoldeb gyda Mrs. Williams. Yn yr hwyr cawd cyfarfod adloniadol llwyddianus, dan lywyddiaeth y Parch. L. Williams, Rhydygwin.

TREBANOS.—Nos Sul, Ebrill 3edd, cafwyd cwrdd adrodd rhagorol, yn benaf gan y plant. Canwyd, adroddwyd a dadleuwyd, a theimlad pawb oedd fod yr oll yn cynwys gwersi buddiol ac ysprydiaeth fyw. Yr ydym bob amser yn cael blas neillduol mewn cyfarfodydd fel hyn, a gobeithio y ceir cwrdd tebyg i'r uchod yn fuan eto.——Yn ystod misoedd y gauaf yr ydym wedi cael cyfarfodydd diwylliadol ardderchog. Darllenwyd papyrau galluog ar y testynau hyn—"Florence Nightingale," "Dafis Castellhywel,""Ceiriog," "Diffyndoll a Masnach Rydd," gan J. J. Williams, A. M. Jenkins, J. Rees, a'r gweinidog. Hefyd cawsom amryw o *debates* penigamp. Darllenwyd papyrau i agor y cyfryw gan L. H. Morgan, Ioan Davies, J. H. Morgan, A. M. Jenkins a'r gweinidog, ac yn mhob un o honynt cafwyd dadleuaeth dda iawn. Hyderwn y byddwn yn alluog i wneud y cyfarfodydd hyn yn fwy o lwyddiant y gauaf nesaf, oblegid bydd ein pobl ieuainc yn fwy cyfarwydd a'r gwaith. Melus, moes eto yw ein dymuniad.——Cyfarfodydd Mawr.—Sul a Llun, Ebrill 17eg a'r 18fed, cynhaliwyd yr uchod, pryd y traddodwyd y genadwri gydag hyawdledd a nerth gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar, a D. J. Evans, Cwmbach. Cafwyd pregethau da, cynulliadau da, a chasgliadau da. Diolch am yr oll. Dechreuwyd dau o'r cyfarfodydd gan y brodyr hyn, y Parch. T. Jones (Wesleyad), a Mr. R. Jones (Bedyddiwr).

LLWYNRHYDOWEN.——Dydd Sul, Ebrill 20fed, derbyniwyd 12 o aelodau newyddion i'r eglwys hon. Mae llawer o aelodau mwyaf ffyddlawn y Llwyn wedi gadael yn ddiweddar am Sir Forganwg, ond gobeithio y gwna y rhai newyddion ymdrech dda i lanw y bylchau i fynu.

BWLCHYFADFA.—Prydnawn Sul y Pasg, daeth Ysgol y Llwyn i'r lan yma yn gryno i'r wyl flynyddol. Yn y prydnawn yr oedd y capel yn orlawn, a holwyd y ddwy ysgol yn Actau 2. Arweiniwyd y canu gan Mr. J. R. Thomas, ac awd drwy yr anthem, "Drylliwyd y Delyn," yn dra llwyddianus. Y Sul canlynol, Ebrill 10fed, ymunodd 6 o aelodau newyddion a'r eglwys, ac eiddunwn iddynt bob cysur ar eu gyrfa.

ABERYSTWYTH.——Yn y gwasanaeth boreuol, dydd Sul, y 10fed o Ebrill, dan arweiniad y Parch. Rees J. Jones, M.A., Aberdare, cynygiwyd gan y Parch. Geo. Eyre Evans, eiliwyd gan Mr. Johnson, cadeirydd y gynulleidfa, a chariwyd mewn distawrwydd y penderfyniad canlynol: "Bod y gynulleidfa, yn cwrdd am y tro cyntaf wedi marwolaeth ei haelod hygar, Frances Power Cobbe, yn dymuno gosod ar glawr gofnodiad o'u diolchgarwch am ei bywyd o heibio pedwar ugain mlwydd, a gysegrwyd mewn gwasanaeth ardderchog dros wyr, gwragedd, plant a chreaduriaid mudion. Wedi cymdeithasu a nyni o'r cychwyn yn 1902, pan y darfu i ni ymffurfio'n gynulleidfa i addoli Duw Hollalluog yn rhydd o bob llyffethair athrawiaethol, bydd yr aelodau yn fythol ddiolchgar am ei chefnogaeth a'i chynorthwy, ac am y llythyrau siriol o gefnogaeth dderbyniwyd oddiwrthi o bryd i bryd."

ENWOGION UNDODAIDD CYMREIG.—Dim i'w cael, a pha ddefnydd disgwyl mewn enwad mor fychan a di-nod? Dyna fyddai'r sylw cyffredin ar y penawd hwn; ond fel mae'n digwydd, arwynebol iawn yw sylwadau cyffredin, ac yn mhell o gyrhaedd y nod fel yn yr achos hwn. Beiddiwn ddweyd fod pump, beth bynag, o Undodiaid yn sefyll allan fel yn perthyn i restr flaenaf enwogion Cymreig. Dyma nhwy mewn trefn amseryddol—Dr. Price, Iolo Morganwg, Dafis Castellhywel, Stephens Merthyr, a Gwilym Marles; o'r

bump, y mwyaf, o bosibl, oedd y blaenaf. Enwogodd ei hun mewn efrydiaeth nad yw yr athrylith Gymreig ddim yn rhedeg yn naturiol iddi, sef athroniaeth. Ar ol marwolaeth Dr. Price, gorfodwyd y genedl i aros am ganrif cyn i'r ail athronydd ddyfod i'r golwg yn mherson Henry Jones, Proffeswr yn awr yn Mhrifysgol Glasgow. Ganwyd Price yn agos i Benybont, Morganwg, yn 1721. Yr oedd yn gyfaill agos i Dr. Priestley, Samuel Roger y bardd, Benjamin Franklin a Voltaire. Daeth i feddiant Llyfrgell Rydd Caerdydd yn ddiweddar ddau lythyr gwreiddiol wedi eu hysgrifenu at Dr. Price yn yr iaith Ffrengig. Mae un o'r llythyrau wedi ei lawnodi gan 30 o aelodau y blaid werinol yn Ffrainc ar adeg y chwyldroad. Derbyniwyd y llythyrau oddiwrth Mr. Arthur Williams, diweddar A.S. dros Ddehau Morganwg, a'i chwaer, Miss Caroline Williams, y rhai ydynt yn disgyn o deulu yr hen ddoethor dysgedig. Carem yn fawr gael bywgraffiad o'r Cymro enwog hwn gan un sydd yn meddu y cymhwysderau goreu at y gwaith, sef y Parch. R. J. Jones, Aberdar.

COLEG CAERFYRDDIN. Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod y Proffeswr Weatherall, M.A. wedi derbyn galwad oddiwrth *Unity Church*, Bolton i fod yn olynydd i'r Parch. C. J. Street ar ei ymadawiad i Sheffield. Darfyddodd cysylltiad Mr. Weatherall a'r Coleg yr wythnos cyn y Pasg a gadawa ar ei ol gymeriad anrhydeddus fel athraw. Ar gais y Bwrdd Presbyteraidd cymerir ei le gan ei ragflaenydd yn yr un gader—y Parch. Philemon Moore, B.A. Oddiar ei ymadawiad o Gaerfyrddin y mae ef a'i briod wedi treulio y rhan fwyaf o'r amser yn Strasburg, lle mae Mr. Moore wedi bod yn efrydydd diwyd a brwdfrydig o'r ieithoedd Semitaidd yn y Brifysgol o dan yr enwog Noeldeke ac ereill. Dymunwn bob llwyddiant i Mr. Moore fel athraw yn iaith a llenyddiaeth yr Hen Destament—cangen o wybodaeth sydd yn cael sylw neillduol yn awr yn ngholegau Cymru, a changen ag mae ef, gyda manteision arbenig addysg a phrofiad, mewn sefyllfa i wneud cyfiawnder a hi yn anad neb arall braidd yn y Dywysogaeth. Dechreuodd ar ei waith ar ddechreu y trydydd *term*. Cawsom bresenoldeb Mr. Moore lawer gwaith yn ein cyfarfodydd Cymreig pan yn dal yr un swydd o'r blaen. Bydd yn dda genym i weled ei wyneb eto a chael cymhorth ei wasanaeth.

CYHUDDIAD DIFRIFOL. — Ymddengys oddiwrth y *Daily News*, Llundain, fod Dr. Torrey yr efengylydd enwog, wedi bod yn dyweyd pethau rhyfedd am yr Undodiaid yn Mryste yn ddiweddar. Dywedai fod Undodiaeth yn bodoli "nid oherwydd anhawsderau meddyliol, ond oherwydd anhawsderau moesol." Ar achlysur arall dywedai fod "Yr Undodiaid yn gwadu duwdod Crist fel y gallent arwain bywyd eangach, yn ysprydol a moesol, ac fel y gallent fyw bywyd anfoesol; ond ychwanegai nad oeddent i gyd o'r un patrwn. Protestiodd y Parch. H. Arnold Thomas, un o weinidogion blaenaf yr Anibynwyr yn Mryste, a chyn-Lywydd yr Undeb Cynulleidfaol, yn erbyn iaith o'r fath, a dywedai nad oedd y cyfiawnhad lleiaf dros wneud y fath gyhuddiad. Mae y *Daily News* a'r *Christian World* hefyd wedi gwneud protest. Dywedant nas gellir amheu dim o ymddygiad moesol yr Undodiaid yn y wlad hon, ac fod eu ffyddlondeb i'r gwirionedd fel y gwelent ef yr un mor onest. Rhoddodd Dr. Warschauer, M.A., gweinidog yr Undodiaid yn Clifton hèr i Dr. Torrey mewn dadl gyhoeddus ond gwrthododd ei derbyn ar yr esgusawd nad oedd ganddo ddim amser. Nid yw yn un syndod chwaith iddo wrthod pan y cofiom y fath ysgolor a duwinydd ydyw Dr. Warschauer.

PREGETH R.J.J.—Deallwn fod y bregeth ragorol ar y pwnc "Ein Tad" a draddodwyd gan Mr. Jones yn Alltyplacca wedi ei pharotoi ar gyfer amcan neillduol. Y mae i ymddangos mewn cyfrol o bregethau o dan y penawd, "Pwlpud y Beirdd" a ddygir allan dan olygiaeth y Parch. T. D. Evans, Tyrhos, Penfro.

Awarded a
Diploma of Merit of the
First Class for
Knowledge of Tailoring
and Skill in Cutting
by
T. D. Humphreys, M.A.,
Ph.D. ;
and Two Years Cutting
at
Lush's, Pontypridd.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical
Tailor,

Hatter, & Gent's Mercer,

LINCOLN HOUSE,
LLANDYSSUL.

We are well prepared for Autumn and Winter with a Select

Stock of Overcoats, Rainproof Coats & Mackintoshes

In all sizes and patterns.

Prices : 10/-, 12/6, 15/-, 20/-, 25/-, 30/-, and upwards.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS).

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.
Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College, Cambridge; Wrangler 1890.

MISTRESSES :
Miss S. A. Jones, C.M. ; Miss Myfanwy Jones, B.A., Honours, Wales.

Classics and Modern Languages : J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).
Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford ; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science : T. J. Evans, B.A., (Oxon.).
Late Scholar of Jesus College, Oxford ; Honours in Natural Science ; Naples Research Scholar of the University of Oxford ; Inter B.Sc., Lond.

Drawing : Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art

Instrumental Music : Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music : Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery : Miss E. W. Williams.
First Class Diplomas in Laundry and Cookery

This year's successes : 4 London Matriculation (1st Div.), 2 Rendel Scholarships, 2 U.C.W. do 1 County do., 1 Agricultural do U.C.W., 1 Science Scholarship Lampeter College (Open). 2 King's Scholarships. Pupils of this School are now holding Scholarships at Oxford Aberystwyth and Lampeter to the value of 881.

Tuition Fee : £1 per Term or £3 per Annum. Music Pianoforte) £1 1s. per Term

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6 ; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sohe tle Agentrs fowell-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

ALBION. ⊛ LLANDYSSUL.

Bedsteads fom 15s. to 45s.
Wool Beds, 15s. each.

GRIFFITH DAVIES.

Boots and Shoes of Every Description.

Splendid Value and Special Attention given to this Department.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

STEAM SAW MILLS, LAMPETER

DAVID DAVIES, TIMBER MERCHANT.

ALL KINDS OF FOREIGN TIMBER, DEALS, BOARDS, SKIRTINGS AND MOULDINGS.

SLATES, BRICKS, FLOOR TILES AND PIPES KEPT IN STOCK AT LOWEST PRICES.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

NEW GARDEN & AGRICULTURAL SEEDS.

The Best Varieties. Proved and Tested for Growth & Quality.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Stock.

Llysfaen House, Llanybyther.

DAVID ⊗ EVANS,

Draper, Grocer, Corn, Flour and Seed Merchant.
Ironmonger and Implement Agent.

A Large Assortment of Men's, Youths' and Boys' Ready-Made Suits and Overcoats.
Suits and Overcoats made to measure.

Henry Thomas's Emporium

2, GUILDHALL SQUARE,

. . CARMARTHEN.

DEPARTMENTS:

Mantles, Millinery, Flowers, Ladies' and Children's Outfitting.

Gloves, Hosiery, Skirts, Blouses, Corsets, Ribbons, Lace, Trimmings.

Linens, Sheetings, Calicoes, Prints, Curtains, Haberdashery, Dress Materials, Silks.

Dress and Costume Making a Speciality.

TIMBER YARD & STEAM SAW MILLS

LLANDYSSUL.

The Llandyssul Timber & Slate Co.

LARGE STOCKS ALWAYS ON HAND OF

Red, Spruce and Yellow Pine Deals.
American Oak Coffin Planks and White Wood Boards
Red and White Matched & Plain Boards.
Flooring & Walling Bricks, Socket Pipes, Junctions, Bends, &c.
Stone Sills and Flags.
Carnarvon Red Slates.

INSPECTION INVITED. ORDERS PROMPTLY EXECUTED.
SOLICITING YOUR ESTEEMED COMMANDS.

Farmers, you require Implements and Machinery for your work. Come for them where your interests are studied all the year. The best place in South Wales for

AGRICULTURAL IMPLEMENTS

IS

Eynon Thomas' Stores,

At Implement Works, Llanybyther,

AND DEPOTS AT LAMPETER & TREGARON MARKETS

Also a Large Assortment of all Kinds of Agricultural Implements of the Best Makes. Extra Fittings for all Makes. Every Article warranted to a full test. Any faulty parts will be replaced free.

I also manufacture on the Premises, Horse Gears, Cheese Presses, Curd Mills, Saw Mills. All kinds of Brasses, unfinished or finished, and Ordinary Repairs by Modern Machinery and Experienced Workmen.

Specialities—Water Wheels, Threshing Machines, Brass Work, Acetylene Gas and Electric Fittings.

Easiest Terms, Low Prices. Inspection and Enquiries Invited.

Note Address—

Eynon Thomas, Implement Works, Llanybyther.

LEONARD C. FARLEIGH, Llandyssul, S.W.,

The Largest Importer of Royal Daylight Petroleum in South West Wales.

Free Delivery per Tank Wagon within a Eight Mile Radius.

A Large Selection of Oil Storage Tanks in Stock, from 10 to 200 gallons.

Advantages of having Petroleum delivered per L. C. F.'s Tank Wagon: 1. The Petroleum delivered free per Tank Wagon, and measured into your Casks at your door. 2. No leakage or waste, and none of the heavy expense of carting from Station. 3. The Petroleum is of superior quality, as it comes direct from the ship's side to me. 4. Prices will show an advantage from what you would pay in Bristol.

Your inquiries would be esteemed by yours truly,

LEONARD C. FARLEIGH,

The largest Oil Importer in South West Wales.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.